# *Hopcyn ap Tomas a 'Llyfrgell Genedlaethol' Ynysforgan*[*]

gan Christine James, PhD

Syndod mawr imi-ond un digon pleserus, rhaid cyfaddef-oedd cael fy ngwahodd gan Gyngor Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion i draddodi Darlith Goffa Syr T. H. Parry-Williams eleni, a hynny ar Hopcyn ap Tomas yn benodol. Syndod, oherwydd bod y gwrda hwnnw'n destun a drafodwyd sawl gwaith o'r blaen gan nifer o gewri sy'n dal yn y tir, ac amryw o'r rheini, fel y mae'n digwydd, â chyswllt amlwg â bro'r Eisteddfod: gallwn enwi, er enghraifft, Dr Brynley Roberts a fu'n Athro'r Gymraeg yn y Brifysgol rhwng 1978 ac 1985, a'r Athro Prys Morgan a'r Dr Nesta Lloyd, ill dau'n aelodau gynt o staff y Brifysgol ac yn rhai hefyd a fuasai'n gymdogion, bron, i Hopcyn petaent yn byw yn ei gyfnod ef. Ie, syndod felly, ond syndod pleserus, a hynny nid yn unig oherwydd y fraint a'r anrhydedd sydd ynghlwm wrth wahoddiad i draddodi darlith gymaint ei bri â hon, ond hefyd oherwydd bod y gwaith o'i pharatoi wedi fy ngorfodi i ailymweld â maes a drafodais innau mewn erthygl a gyhoeddwyd dros ddeuddeng mlynedd yn ôl bellach.[1] Ac er bod peth gorgyffwrdd, o anghenraid, rhwng sylwedd y drafodaeth honno a'r ddarlith bresennol, yr wyf wedi gwerthfawrogi'r cyfle hwn i ailystyried rhai o'r materion a godais yr adeg honno, ac i amodi ambell gasgliad a phwyslais yng ngoleuni ysgolheictod diweddarach.[2]

Petaem ninnau'n byw mewn oes arall–nid yn oes Hopcyn yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg, ond yn hytrach ail hanner y bedwaredd ar bymtheg–byddai unrhyw ddarlith ar Hopcyn ap Tomas y gellid fod wedi ei thraddodi yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe yn 1863 neu 1891, dyweder, wedi bod yn bur wahanol ei chynnwys a'i thrywydd i hon sydd gennyf heddiw. Yr oedd enw 'Hopcyn ap Tomas o Ynysdawy' yn ddigon hysbys i

---

[*] Darlith Goffa Syr T. H. Parry-Williams, a draddodwyd ar faes Eisteddfod Genedlaethol Abertawe a'r Cylch, 7 Awst 2006. Y cadeirydd oedd yr Athro Prys Morgan.

[1] Christine James, ' "Llwyr Wybodau, Llên a Llyfrau": Hopcyn ap Tomas a'r Traddodiad Llenyddol Cymraeg', yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *Cwm Tawe*, Cyfres y Cymoedd (Llandysul, 1993), 4-44. Fel y gwêl y cyfarwydd, y mae'r drafodaeth honno, fel yr un bresennol, yn drwm ei dyled i rai a weithiodd yn y maes hwn o'm blaen.

[2] Yn fwyaf arbennig, rwyf wedi gallu manteisio ar destunau golygedig o'r cerddi a ganwyd i Hopcyn gan gyfoeswyr iddo, a gyhoeddwyd bellach yng Nghyfres Beirdd yr Uchelwyr, gw. n.19 isod.

hynafiaethwyr Morgannwg y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed, ac o droi at gyfrolau megis *The Literature of the Kymry* Thomas Stephens (1849), *Hanes Morganwg* Dafydd Morganwg (1874) neu *Hopkiniaid Morganwg* Lemuel J. Hopkin-James (1909), gwelir bod eu hawduron yn sôn amdano ef a'i deulu â chryn frwdfrydedd.[3] Prif ffynhonnell eu gwybodaeth am Hopcyn (ynghyd â llawer agwedd arall ar hanes a thraddodiad llenyddol Morgannwg, am hynny) oedd papurau Iolo Morganwg, y cyhoeddwyd detholiad ohonynt yn yr *Iolo Manuscripts* yn 1848;[4] o'r herwydd, ni ddylai beri syndod inni fod y portread o Hopcyn a gyflwynir yn y gweithiau hyn yn un tra lliwgar. Dyma ei brif nodweddion yn gryno. Yn ôl Iolo, yr oedd Hopcyn ap Tomas ab Einion yn ŵyr i neb llai na'r Einion Offeiriad y cysylltir ei enw'n anwahanadwy â'r Gramadeg barddol canoloesol lle y cadwyd yr ymdriniaeth gynharaf a feddwn ag egwyddorion Cerdd Dafod.[5] Yr oedd Tomas, tad Hopcyn, a Hopcyn ei hun, hwythau'n ffigyrau o gryn arwyddocâd yn hanes llenyddiaeth Gymraeg *à la* Iolo gan eu bod rhyngddynt, fe ddywedir, yn awduron y Mabinogion, Chwedl Taliesin a 'Llyfr y Greal'. Eto, Hopcyn oedd yr aelod pwysicaf o ddigon o'r teulu diddorol hwn yn ôl Iolo gan ei fod nid yn unig yn awdur rhyddiaith o bwys fel y nodwyd, ond hefyd yn fardd a ddefnyddiai'r enw barddol Casnodyn ac a ganodd, ymhlith amryw o gerddi eraill, 'Englynion Marwnad Dafydd ap Gwilym'.[6] A'i waith pwysicaf oll, yn ôl Iolo, oedd yr 'Yniales', sef casgliad o destunau amrywiol, yn rhamantau, damhegion, gramadegau, achau, geirfâu barddol, brutiau ac englynion.[7]

Os cawsom ein dysgu gan yr Athro G. J. Williams i fod yn wyliadwrus o honiadau gor-ddiddorol Iolo, gan fod ei awydd i hyrwyddo rhan ei Forgannwg enedigol yn hanes a llenyddiaeth y genedl yn gyson drech nag unrhyw egwyddorion y gellid yn rhesymol eu disgwyl gan ysgolhaig cyfrifol,[8] daethom hefyd i sylweddoli'n gynyddol bellach fod Iolo yn tueddu i adeiladu ei gestyll athrylithgar o gywrain ar gonglfeini digon sad.[9] Yn yr achos arbennig hwn, (a newid y trosiad), o archwilio'r darlun o Hopcyn ap Tomas a

---

3 Gw., er enghraifft, Thomas Stephens, *The Literature of the Kymry* (Llandovery, 1849), 283, 425-6; David Watkin Jones (Dafydd Morganwg), *Hanes Morganwg* (Aberdâr, 1874), 174, 176; Lemuel J. Hopkin-James, *Hopkiniaid Morganwg* (Bangor, 1909), 3-12.

4 Taliesin Williams (ab Iolo) *et al.* (gol.), *Iolo Manuscripts* (Llandovery, 1848), 94-5, 179, 488-9.

5 Gw. G. J. Williams ac E. J. Jones (gol.), *Gramadegau'r Penceirddiaid* (Caerdydd, 1934); Thomas Parry, 'The Welsh Metrical Treatise attributed to Einion Offeiriad', *Proceedings of the British Academy*, 47 (1961), 177-95; J. Beverley Smith, 'Einion Offeiriad', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 20 (1962-4), 339-47.

6 *Iolo Manuscripts*, 94-5. Ar ganu'r Casnodyn hanesyddol, gw. bellach R. Iestyn Daniel (gol.), *Gwaith Casnodyn*, Cyfres Beirdd yr Uchelwyr (Aberystwyth, 1999).

7 Gw. *Taliesin*, 1 (1859-60), 287; *Iolo Manuscripts*, 180, 185.

8 G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (Caerdydd, 1948), *passim*; idem, *Iolo Morganwg* (Caerdydd, 1956), *passim*.

9 Tynnodd Bleddyn Huws sylw at enghraifft dda o hyn yn 'Ieuan Gethin, Owain Glyndŵr a stori Iolo Morganwg', *Y Traethodydd* (Gorffennaf 2000), 137-47.

gyflwynwyd gan Iolo, gellir olrhain o dan haenau paent y dychymyg amlinelliad dilys o gymeriad hanesyddol a roddodd ei ffurf a'i siâp sylfaenol i'r portread rhamantaidd. Yn wir, o chwilio'n ofalus, cawn hyd i berson llawn mor ddiddorol â'r cymeriad o wneuthuriad yr arch-ffugiwr o Drefflemin, un a fu'n bur arwyddocaol a dylanwadol yn ein traddodiad llenyddol a'n canfyddiad ninnau o'r traddodiad hwnnw.

Beth felly am yr Hopcyn ap Tomas hanesyddol? Dechreuwn trwy geisio ei osod yn gryno mewn cynefin a chyfnod. Cyfeirir ato'n aml fel 'Hopcyn ap Tomas o Ynysdawy', sef enw'r hen blasty y gellir gweld ei olion o hyd ar lannau Tawe, nid nepell o'r gofeb ddiweddar i Hopcyn ym mharc pentref Ynystawe.[10] Fodd bynnag, dangosodd yr Athro Prys Morgan dro yn ôl bellach mai aelod o deulu Ynysforgan cyfagos oedd Hopcyn mewn gwirionedd.[11] Safai'r tŷ hwnnw ryw hanner milltir i waered afon Tawe oddi wrth Ynysdawy, yng nghyffiniau'r ffermdy bychan sy'n cadw enw'r hen blasty o hyd, yng nghysgod yr M4 ger Cyffordd 45.

Ni wyddom union ddyddiadau Hopcyn, ond gellir cynnig iddo gael ei eni yn ystod ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg ac iddo farw yn ystod chwarter cyntaf y bymthegfed. Yn 1337 llofnododd ei dad, Tomas ab Einion, weithred sy'n enwi tiroedd yng Nghilfái;[12] teg fyddai casglu bod hwnnw'n ddyn yn ei oed a'i amser ar y pryd, a'i bod yn ddigon posibl, onid yn wir yn debygol, fod Hopcyn wedi ei eni erbyn hynny. Digwydd enw ei fab, Tomas ap Hopcyn, mewn gweithred dyddiedig 20 Medi 1408.[13] Y mae amryw o ysgolheigion – a minnau yn eu plith – wedi camddeall arwyddocâd y ddogfen honno, a chymryd yn ganiataol mai tiroedd ei dad a drosglwyddwyd i Tomas ap Hopcyn drwyddi, gan gasglu bod Hopcyn wedi marw erbyn 1408. Fodd bynnag, dangosodd Dr Iestyn Daniel yn ddiweddar nad dyna sylwedd y ddogfen, ac y gallai Hopcyn, o'r herwydd, fod wedi marw cyn neu ar ôl hynny.[14] Yr unig ddyddiad sicr y gwyddys amdano yn hanes Hopcyn yw 1403, ac anodd peidio â chredu ei fod yn hen ŵr erbyn hynny. Digwydd ei enw mewn llythyr a anfonwyd y flwyddyn honno oddi wrth faer a bwrdeisiaid Caerllion-ar-Wysg at eu cymheiriaid yn Nhrefynwy. Ynddo, dywedir bod 'Hopkyn ap Thomas of Gower'[15] wedi cael ei wysio i Gaerfyrddin gan Owain

---

[10] Codwyd y gofeb wreiddiol trwy haelioni trigolion Ynystawe yn 1959, yn sgil darlith gan un arall o wŷr llên Abertawe, sef yr Athro Henry Lewis; fe'i hadnewyddwyd yn 2005.

[11] Prys Morgan, 'Glamorgan and the Red Book', *Morgannwg*, 22 (1978), 46-7.

[12] G. T. Clark, *Cartæ et alia Munimenta quæ ad dominium de Glamorgancia pertinent*, iv (Cardiff, 1910), 1211-12.

[13] Ibid., 1458.

[14] Tiroedd un Willhelmus ap Howell ap Stevin a drosglwyddwyd trwy'r weithred; gw. R. Iestyn Daniel (gol.), *Gwaith Dafydd y Coed a Beirdd Eraill o Lyfr Coch Hergest*, Cyfres Beirdd yr Uchelwyr (Aberystwyth, 2002), 63.

[15] Safai Ynysforgan yn y rhan Gymreig o arglwyddiaeth Gŵyr yn yr Oesoedd Canol.

Glyndŵr pan oedd hwnnw yn y dref y flwyddyn honno, fel y gallai Owain ymgynghori ag ef ynglŷn â'i ymgyrch, 'as he huld him maister of Brut, that he schuld do hym to understonde how and what maner hit schold be falle of hym'.[16] Cymerir mai ystyr 'maister of Brut' yw bod Hopcyn yn cael ei gydnabod yn awdurdod ar y canu brud (proffwydol), ac y mae'r ateb a roddodd i Glyndŵr, yn ôl yr hanes, yn deilwng o'r amwysedd sy'n nodweddu'r canu hwnnw fel cyfangorff: byddai Glyndŵr yn cael ei ddal ymhen fawr o dro, meddai, dan faner ddu [ddrygargoelus] rywle rhwng Caerfyrddin a Gŵyr. 'Maister of Brut' ai peidio, ni chyflawnwyd y ddarogan arbennig honno: ond dichon iddo gael yr effaith a fwriadwyd gan na fentrodd Glyndŵr a'i wŷr rhagddynt i gyffiniau Gŵyr.[17] Beth bynnag a wnawn o'r stori – a dichon bod rhai o'i manylion mor apocryffaidd ag amryw o'r pethau y byddai Iolo'n eu tadogi ar enw Hopcyn maes o law – y mae dau beth gwerth eu nodi yn codi ohoni. Yn gyntaf, yr awgrym o statws ac awdurdod Hopcyn sy'n ymhlÿg yn y ffaith y mynnai Glyndŵr ymgynghori ag ef cyn bwrw ymlaen â'r cam nesaf yn ei ymgyrch yn y De; ac yn ail, yr arbenigedd a briodolir i Hopcyn mewn perthynas ag un gangen ar farddoniaeth ei ddydd, sef y canu brud.[18]

Gellir cywain rhagor o wybodaeth am statws Hopyn ap Tomas a'i ddiddordebau llenyddol o droi at ffynonellau eraill. Y bwysicaf o'r rheini yw'r pum awdl fawl a ganwyd iddo gan feirdd a fu yn eu blodau yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg: Llywelyn Goch ap Meurig Hen, Madog Dwygraig, Dafydd y Coed, Ieuan Llwyd ab y Gargam a Meurig ab Iorwerth.[19] Gellir synio am y beirdd hyn fel aelodau o'r to olaf o Ogynfeirdd, ac y mae eu cerddi i Hopcyn yn rhai ffurfiol, confensiynol ar lawer ystyr: awdlau ydynt ym mhrif ffrwd y canu mawl Cymraeg, rhai sy'n darlunio delfryd o noddwr a

---

16 Henry Ellis, *Original Letters* (ail gyfres), i (London, 1827), 21-3.

17 J. E. Lloyd, *Owen Glendower* (Oxford, 1931), 69.

18 Gogleisiol yw nodi bod llawer o'r canu brud a oroesodd o ddiwedd yr Oesoedd Canol yn crybwyll mannau ym Morgannwg, bod brudiwr enwocaf y bymthegfed ganrif, sef Rhys Fardd, yn frodor o Ystumllwynarth yng Ngŵyr, a bod y 'Cwta Cyfarwydd' (llsgr. LlGC Peniarth 50), sy'n cynnwys casgliad o ddaroganau mewn barddoniaeth a rhyddiaith, gan gynnwys llawer o waith Rhys Fardd, wedi ei gopïo rywle yng ngorllewin Morgannwg yn ystod hanner cyntaf y bymthegfed ganrif. Ai rhy ffansïol fyddai awgrymu fod a wnelo diddordeb ac arbenigedd Hopcyn ap Tomas yn y canu brud rywsut â ffyniant arbennig y *genre* yn yr ardal hon yn ystod hanner cyntaf y bymthegfed ganrif?

19 Dafydd Johnston (gol.), *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen*, Cyfres Beirdd yr Uchelwyr (Aberystwyth, 1998), 36-7; Huw Meirion Edwards (gol.), *Gwaith Madog Dwygraig*, Cyfres Beirdd yr Uchelwyr (Aberystwyth, 2006), 25-6; R. Iestyn Daniel (gol.), *Gwaith Dafydd y Coed a Beirdd Eraill o Lyfr Coch Hergest*, 19-23. Eu cerddi i Hopcyn ap Tomas yw'r unig enghreifftiau o waith Ieuan Llwyd ab y Gargam a Meurig ab Iorwerth sydd wedi goroesi, ac fe'u golygwyd gan Iestyn Daniel, ibid., 107-8, 125-7.

feddai ar rinweddau a aethai'n ystrydeb erbyn ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg. Cwbl ddisgwyliedig felly yw cyfeiriadau'r cerddi at statws Hopcyn a'i dras fonheddig,[20] fel yn wir y mae eu pwyslais ar ei ddoethineb mawr.[21] Cwbl gonfensiynol hefyd yw'r pwyslais a roddir ar alluoedd Hopcyn ar faes y gad,[22] yn union fel y mae'r sôn am ei haelioni a chyfoeth ei lys.[23] Mewn geiriau eraill, nid portread realaidd o Hopcyn a gadwyd yn yr awdlau hyn, ond darlun confensiynol o noddwr ac iddo nodweddion generig, rhyw lun *identikit* o'r uchelwr delfrydol y gellid ei gymhwyso at bron unrhyw uchelwr arall yn hanes hir y canu mawl Cymraeg. Fodd bynnag, ceir ambell gyfeiriad yn y cerddi lle na ellir ond synhwyro bod y beirdd yn mynd y tu hwnt i gonfensiwn ac yn cofnodi ar gân ambell fanylyn sy'n rhoi cipolwg ar Hopcyn ap Tomas hanes yn hytrach na'r delfryd ohono. Ac er bod rhaid gochel rhag darllen gormod i mewn i'r cyfeiriadau hynny a chreu portread yr un mor rhamantaidd o Hopcyn ag a luniodd Iolo gynt, o drin y ffynonellau'n gyfrifol ofalus gellir canfod ynddynt amlinelliad dilys o uchelwr o bwys, un a fu'n bellgyrhaeddol ei ddylanwad ar hanes ein llên.

---

[20] Nodir yma ddyrnaid o ddyfyniadau cryno o blith llawer y gellid fod wedi eu dethol i enghreifftio'r confensiwn o uchelwr delfrydol a gyflwynir yn y cerddi. Un oedd ef yn 'llin tëyrnedd' yn ôl Ieuan Llwyd (ll.16), 'Tëyrn hil cedyrn' ydoedd yng ngolwg Meurig ab Iorwerth (ll.5), a disgrifia Madog Dwygraig ei hynafiaid fel 'Hŷn heirdd, glew ddigeirdd gloyw ddiwygiad' (ll.4).

[21] Tra bod teyrnged Dafydd y Coed, 'Iôr dethol ar y doethion' (ll.38), yn effeithiol o syml, diriaetha Meurig ab Iorwerth y modd y câi'r doethineb hwnnw fynegiant ymarferol: 'Hopcyn eirgoeth, doeth wrth ymdeithig' (ll.38). Ffordd gonfensiynol arall o gyfleu doethineb yng nghanu'r cyfnod hwnnw oedd trwy gymharu gwrthrych y gerdd â Selyf Ddoeth (Solomon yr Hen Destament), a manteisiodd Madog Dwygraig (ll.13) a Meurig ab Iorwerth (ll.18) ill dau ar y confensiwn hwnnw.

[22] Un ffordd y gwneir hynny yw trwy ddefnyddio rhai o hoff drosiadau'r canu mawl o gyfnod Taliesin ymlaen. Er enghraifft, gelwir Hopcyn yn eryr ym mhob un o'r awdlau, ac y mae hefyd yn 'Llew durwayw' (Llywelyn Goch, ll.51), yn 'hebog gleifddur' a 'Llewpart Gŵyr' (Ieuan Llwyd, llau.19, 25). Ceir delweddd draddodiadol arall ar ddechrau awdl Meurig ab Iorwerth, 'Dôr dursaf dewr diarswyd' (ll.2). Mewn tair o'r awdlau, cyffelybir Hopcyn i Arthur, y delfryd hwnnw o allu milwrol yn nychymyg y dyn canoloesol (Meurig ab Iorwerth, ll.51; Llywelyn Goch, ll.43; Madog Dwygraig, ll.48).

[23] Os Arthur oedd y delfryd o filwriaeth, y Tri Hael traddodiadol oedd y delfryd o haelioni, ond yr oedd Hopcyn yn rhagori ar y rheini yn ôl Dafydd y Coed: 'Mwy a rydd . . . / No'r Trihael i gerddawr' (llau.59-60). Y mae Dafydd y Coed (ll.98) a Madog Dwygraig (ll.37) yn tynnu i'w cerdd ŵr hael diweddarach – un arall y gellid ei osod ym Morgannwg, ond mewn cyfnod ychydig yn gynharach nag oes Hopcyn – sef Ifor Hael, noddwr enwog Dafydd ap Gwilym. A cheir y defnydd arferol o gydgymeriad (*synecdoche*) i gyfleu haelioni, a'r beirdd yn disgrifio Hopcyn fel 'llaw ddigaead' (Madog Dwygraig, ll.6), neu yn fwy trawiadol fel 'Mwnai law' (Dafydd y Coed, ll.93). Yn aml, diriaethir haelioni a chyfoeth Hopcyn trwy sôn am y gwleddoedd a dreuliwyd yn ei lys: 'A lliawstraul medd a llestri—ariant / A hir ogoniant a hwyr gyni' (Llywelyn Goch, llau.31-2).

Dechreuwn â thystiolaeth y cerddi ynghylch cartref Hopcyn yn Ynysforgan. Yr oedd tŷ uchelwr canoloesol yn arwydd allanol o'i statws a'i gyfoeth, a cheir sawl awgrym yn y cerddi fod tŷ Hopcyn yn symbol gweledol amlwg o bwysigrwydd ei berchennog. Yn ôl Madog Dwygraig yr oedd yr adeilad yn un newydd, ysblennydd: 'newyddaur addef' (ll.40). O'r cyfeiriadau at 'ei galchlys ger Tawy' (Dafydd y Coed, ll.56) a'r 'llys gaergalch' (Ieuan Llwyd, ll.31), gellir casglu bod muriau allanol Ynysforgan wedi eu gwyngalchu, fel yr oedd yr arfer yn yr Oesoedd Canol yn achos adeiladau arwyddocaol fel cestyll, eglwysi a llysoedd pwysig. Dengys ymadrodd yn awdl Llywelyn Goch, 'Croestai neuaddawr' (ll.30), fod Ynysforgan wedi ei chynllunio a'i chodi ar ffurf croes, ac y mae hyn, ynghyd â'r sôn am y muriau gwyngalch, yn dwyn i gof ddisgrifiad enwog Iolo Goch o gartref ysblennydd cyfoeswr i Hopcyn, yntau'n ŵr cyfoethog a thra dylanwadol, sef eiddo Owain Glyndŵr yn Sycharth: 'Croes eglwys gylchlwys galchliw'.[24]

Yn wahanol i gywydd Iolo Goch sy'n darparu cryn fanylion am adnoddau'r llys hwnnw, y tu mewn a'r tu allan, ychydig sydd gan yr awdlau i'w ddweud am Ynysforgan a'i amgylcheddau ac eithrio nodi ei leoliad 'ger Tawy'. Er cymaint yr hoffwn fedru dehongli'r sôn am y 'llys mwyeilch' (Dafydd y Coed, ll.79) a'r 'Cwyn â mil adar' (Meurig ab Iorwerth, ll.73) yn gyfeiriadau llythrennol at y bywyd gwyllt a ffynnai y tu allan i furiau Ynysforgan – yn union fel y cyfeiriodd bardd anhysbys tua diwedd y nawfed ganrif, efallai, at yr adar môr a gylchynai lys Bleiddudd yn Ninbych-y-pysgod[25] – dichon mai trosiadau am feirdd (creaduriaid gwyllt o fath arall!) yw'r cyfeiriadau hyn at adar mewn gwirionedd. Oherwydd er bod presenoldeb beirdd yn nodwedd generig ar lys yr uchelwr canoloesol fel y'i darlunnir yn gyson yn y canu mawl, y mae'r awdlau i Hopcyn ap Tomas yn gyforiog o gyfeiriadau at feirdd a barddoniaeth: yn wir, prin y gellir mentro ymhellach na llinell neu ddwy trwy'r cerddi hyn heb faglu dros ryw fardd neu gerddor – gymaint felly nes peri inni amau nad mynegiant o gonfensiwn yn unig mo hyn, ond yn hytrach ddisgrifiad o nodwedd benodol ar lys Hopcyn, sef bod i feirdd a barddoniaeth amlygrwydd anghyffredin rhwng muriau Ynysforgan.

Y mae pob un o'r pum bardd y cadwyd eu cerddi i Hopcyn yn nodi ei haelioni arbennig iddynt yn bersonol. 'Da yw ymy a diomedd' yw tystiolaeth gyffredinol Ieuan Llwyd (ll.56), ond sonnir hefyd am roddion penodol a dderbyniwyd o'i law hael – gwin, darnau o arian bath, gwisgoedd moethus ac yn y blaen. Dim syndod i Dafydd y Coed ddatgan yn deimladwy, 'Llwyr garaf naf nawcan punt' (ll.21) – cyfeiriad o bosibl at incwm blynyddol sylweddol

---

[24] D. R. Johnston (gol.), *Gwaith Iolo Goch* (Caerdydd, 1988), cerdd X.53.

[25] Gw. Ifor Williams, 'Moliant Dinbych Penfro', *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion* (1940), 66-83; R. Geraint Gruffydd, *'Edmyg Dinbych': Cerdd Lys Gynnar o Ddyfed*, Darlith Goffa J. E. Caerwyn a Gwen Williams, 2001 (Aberystwyth, 2002).

Hopcyn, yn cyfateb efallai i incwm masnachwr llwyddiannus yn y cyfnod hwnnw, ac os felly'n awgrym cryf fod gan Hopcyn y moddion i noddi beirdd ar raddfa hael.[26] Oherwydd nid y pump hyn y cadwyd eu hawdlau iddo oedd yr unig feirdd i ymweld ag Ynysforgan: yn wir, yr awgrym clir yw bod rhai o bell ac agos yn ymbresenoli yno er ymelwa ar haelioni perchennog y llys. (Cystal nodi yn y fan hon nad beirdd Morgannwg mo'r pump eu hunain: o Feirionnydd yr hanai Llywelyn Goch a Madog Dwygraig ill dau, ac er nad yw'r dystiolaeth yn gwbl glir, ymddengys fod Dafydd y Coed yn hanu o rywle yn y De neu'r Canolbarth, mai un o Fôn oedd Ieuan Llwyd, a Brycheiniog o bosibl oedd cynefin Meurig ab Iorwerth.)[27] Â gormodiaith nodweddiadol o'r canu mawl cyferchir Hopcyn fel 'Teml beirdd byd' (Meurig ab Iorwerth, ll.7); dichon bod mwy o sail i ddisgrifiad Ieuan Llwyd ohono fel 'teml Gwynedd feirdd' (ll.5), a chymharer geiriau Dafydd y Coed, 'Ef yw ystor cerddorion / O fôr Morgannwg hyd Fôn' (llau.33-4). Gellir pentyrru enghreifftiau i hoelio'r pwynt, ond gadawer i un llinell o waith Dafydd y Coed grynhoi'r cwbl: 'Byrddwin ei neuadd, barddonïaidd' (ll.140) – ac y mae'r ffaith mai dyma'r unig enghraifft o'r ansoddair hwn a gadwyd yn ein llenyddiaeth ganoloesol fel petai'n crisialu'n symbolaidd yr amlygrwydd arbennig a roddid i feirdd a barddoniaeth yn Ynysforgan, os gellir derbyn tystiolaeth y cerddi.[28]

Nodwyd eisoes dystiolaeth dros gredu bod Hopcyn yn hyddysg yn y canu brud, a sonia Llywelyn Goch yntau am ei wybodaeth yn y maes hwnnw:

Eofnllwyr y gŵyr egori – yt frawd
A ddywawd praffwawd y proffwydi. (llau.15–16)

Ond ceir yn yr awdlau ddarlun clir hefyd o uchelwr diwylliedig a ymddiddorai'n wybodus yng ngwaith y beirdd yn gyffredinol, ac a ystyrid ganddynt yn awdurdod ar eu crefft: 'Tad y gerddwriaeth fad fawr', meddai Meurig ab Iorwerth amdano (ll.8), a threwir nodyn digon tebyg gan Ieuan Llwyd, 'doctor cerdd fad' (ll.47). Er nad oes dim yn eithriadol yn hyn fel y cyfryw - cadwyd amryw o gerddi canoloesol sy'n sôn am uchelwyr eraill yn darllen ac yn trafod yn ddeallus â'r beirdd[29] – unwaith eto y mae'r awdlau i Hopcyn ap Tomas fel petaent yn mynd y tu hwnt i'r arferol yn eu pwyslais ar

---

[26] Yn ôl Lawrence H. Officer, 'Purchasing Power of British Pounds from 1264 to 2006', *http://MeasuringWorth.com* (gwelwyd Mai 2007), byddai i £900 yn 1380 yr un pŵer prynu â £359,987.56 yn 2006. Fodd bynag, efallai na ddylid deall y 'nawcant' yn gwbl lythrennol, ond yn hytrach fel rhif symbolaidd i ddynodi swm mawr iawn; gw. *Gwaith Dafydd y Coed*, 64.

[27] Gw. *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen*, 1; *Gwaith Madog Dwygraig*, 1; *Gwaith Dafydd y Coed a Beirdd Eraill o Lyfr Coch Hergest*, 3-4, 105, 123.

[28] J. Lloyd-Jones, *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg* (Caerdydd, 1931), 52; *Geiriadur Prifysgol Cymru*, 258.

[29] Gw. yr enghreifftiau a nodir yn Dafydd Johnston, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300-1525* (Caerdydd, 2005), 42-4, a cf. Eurys I. Rowlands (gol.), *Poems of the Cywyddwyr* (Dublin, 1976), xvi-xviii.

ddyfnder ei ddysg a'i ddiwylliant. 'Llëyg yw pawb . . . / . . . wrth Hopgyn', meddai Ieuan Llwyd (llau.33-4), cyn mynd ymlaen i bwysleisio ehangder aruthrol ei ddysg: 'Llwyr wybodau llên a llyfrau' (ll.35). Nid gŵr dysgedig yn unig mo Hopcyn fel y'i cyflwynir inni yma, ond y gŵr mwyaf dysgedig posibl. Hyd yn oed ar ôl caniatáu ar gyfer yr ormodiaith sy'n lliwio'r canu mawl, fe'n gadewir â'r argraff bendant bod hwn yn gymeriad go arbennig.

Trewir goleuni pellach ar ehangder dysg a diwylliant Hopcyn o ddau gyfeiriad gwahanol sydd, oherwydd natur benodol eu cyfeiriadaeth, yn caniatáu inni fod yn bur sicr ein bod bellach yng nghwmni'r cymeriad hanesyddol yn hytrach na'r delfryd ohono. Gwelwyd eisoes fod Ieuan Llwyd yn crybwyll 'llên a llyfrau' wrth frolio gwybodaeth eang ei noddwr, ac yn ddiweddarach yn ei gerdd meddai eto, 'Dysgodd lyfrau' (ll.53). Dyma ddau awgrym clir fod gan Hopcyn lawysgrifau at ei ddefnydd, ac yn wir yn llinell nesaf ei gerdd y mae Ieuan Llwyd yn enwi un testun penodol, sef y *Lusidarius*. Â Dafydd y Coed gam brasach i'r un cyfeiriad yn ei awdl yntau: mewn pedair llinell a ddenodd sylw pawb a fu'n trafod Hopcyn ap Tomas – gan gynnwys Iolo[30] – ceir gan y bardd restr o bedwar testun gwahanol a oedd ym meddiant ei noddwr yn Ynysforgan, sef y *Lusidarius* ynghyd â thri gwaith arall:

Mwnai law, mae yn ei lys,
Eurddar, y Lusidarius,
A'r Greal a'r Yniales,
A grym pob cyfraith a'i gras. (llau.93-6)

Llinellau yw'r rhain sydd nid yn unig yn rhoi darlun cryno o ddiwylliant Hopcyn, gan roi amcan inni o'i chwaeth lenyddol amryfath, ond y maent hefyd yn agor cil y drws ar gynnwys ei lyfrgell. Ac fel y gwelir maes o law, y mae'r llyfrgell honno'n un bur ddiddorol.

Er cymaint y demtasiwn i estyn y testunau hyn ar unwaith oddi ar silffoedd Ynysforgan – neu yn gywirach, efallai, eu tynnu o'r gist – a chael cip ar gynnwys pob un yn ei dro, rhaid nodi'n gyntaf nad catalog Dafydd y Coed yw unig ffynhonnell ein gwybodaeth am lyfrgell Hopcyn ap Tomas, ac y ceir goleuni pellach ar ei gasgliad o droi i gyfeiriad arall. Y mae llawysgrif Gymraeg dameidiog ynghadw yn llyfrgell y Public Library Company, Philadelphia.[31] Ei phrif gynnwys yw copi o ddau destun (ffug) hanesyddol, sef *Ystoria Dared* ynghyd â *Brut y Brenhinedd*; y mae'r naill destun fel y llall yn

[30] Awgrymodd G. J. Williams mai'r llinellau hyn yn fwyaf arbennig sy'n gorwedd y tu ôl i ddarlun rhamantaidd Iolo Morganwg o Hopcyn ap Tomas a'i deulu; gw. G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg*, 13-14, 147.

[31] Llsgr. Philadelphia, Public Library Company 8680; gw. Brynley F. Roberts, 'Un o Lawysgrifau Hopcyn ap Tomas o Ynys Dawy', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 22 (1967), 223-8.

anghyflawn ac ni pherthyn unrhyw ddiddordeb neilltuol iddynt fel y cyfryw. Yr hyn sydd o'r diddordeb mwyaf, fodd bynnag, yw'r nodyn a ychwanegodd ysgrifydd y *Brut* ar ddiwedd ei gopi o'r testun hwnnw (ff.68):

> y llyuyr hwnn a yscriuennwys howel vychan uab howel goch o uuellt yn llwyr onys gwnaeth agkof adaw geir neu lythyren. o arch a gorchymun y vaester nyt amgen Hopkyn uab thomas uab einawn . . .

Dyma dystiolaeth ddiamwys fod y llawysgrif hon yn un a gomisiynwyd gan Hopcyn ap Tomas, ac nid afresymol felly fyddai ei gosod ymhlith llyfrau Ynysforgan yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg. Yr oedd ei chopïydd, Hywel Fychan, yn ysgrifydd gweithgar, a dangosodd Gifford Charles-Edwards a Daniel Huws fod cynifer â saith lawysgrif wedi goroesi y gellir eu priodoli naill ai'n gyfan gwbl neu ynteu'n rhannol iddo, ynghyd â darn byr mewn un arall.[32] Cwbl anghyfrifol fyddai neidio i'r casgliad bod pob un o'r rheini'n llyfr a fu unwaith ym meddiant Hopcyn ap Tomas, ond o gyfosod y testunau a restrir yn awdl Dafydd y Coed â llawysgrifau Hywel Fychan, ceir rhai cyfatebiaethau sydd, fan leiaf, yn dra awgrymog.

Y cyntaf o'r testunau a enwir gan Dafydd y Coed yw'r *Lusidarius*, neu *Historia Liwsidar* fel y'i gelwir weithiau, sef cyfieithiad, neu'n hytrach grynodeb Cymraeg, o destun crefyddol Lladin, *Elucidarium sive Dialogus de Summa Totius Christianae Theologiae*.[33] Byd crefyddol yn ei hanfod oedd byd y dyn canoloesol, ac nid oes dim yn annisgwyl yn y ffaith fod lleygwr diwylliedig fel Hopcyn ap Tomas yn berchen ar lyfr crefyddol. Yn ei fersiwn Lladin bu'r gwaith hwn, a luniwyd yn wreiddiol tua dechrau'r ddeuddegfed ganrif, yn hynod boblogaidd am genhedlaeth ar ôl cenhedlaeth ledled Ewrop – ffaith a briodolir yn aml i'r briodas hapus rhwng ei ffurf agos-atoch (dialog rhwng athro a disgybl) a'i gynnwys trefnus (crynodeb o brif athrawiaethau'r ffydd Gristnogol, a'r rheini wedi eu cyflwyno yn y fath fodd ag i gyfleu pendantrwydd anffaeledig y pynciau dan sylw). Y mae nifer luosog y copïau Cymraeg a oroesodd (rhyw ddau ar hugain, gan gynnwys rhai anghyflawn a drylliau) yn awgrymu bod y testun yn dra phoblogaidd yng Nghymru hefyd, a gellir tybio oddi wrth ddyddiad y copïau hynny ei fod ar anterth ei boblogrwydd tua diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg.[34]

---

[32] Gifford Charles-Edwards, 'The Scribes of the Red Book of Hergest', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 21 (1979-80), 250; Daniel Huws, 'Table of Medieval Welsh Vernacular Manuscripts', *Medieval Welsh Manuscripts* (Cardiff and Aberystwyth, 2000), 60.

[33] J. Morris-Jones a John Rhys (gol.), *The Elucidarium and other tracts in Welsh from Llyvyr Agkyr Llandewivrevi* (Oxford, 1894). Gw. hefyd Nesta Lloyd a Morfydd E. Owen, *Drych yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1986), 10-11.

[34] Idris Foster, 'The Book of the Anchorite', *Proceedings of the British Academy*, 36 (1950), 222-3.

Cadwyd copi o'r *Lusidarius* yn llaw Hywel Fychan yn llsgr. LlGC Llanstephan 27 (Llyfr Coch Talgarth): yn wir, dyna destun agoriadol y llawysgrif honno (sy'n cynnwys amryw o destunau crefyddol eraill).[35] Er na ellir bod yn gwbl sicr mai dyna'r union gopi o'r *Lusidarius* a welodd Dafydd y Coed, y mae'r ffaith bod yr enwau *Rys vab Thomas* a *rys uab thoma[s] uab einyavn* yn digwydd ar ganol gweddïau mewn man arall yn y llawysgrif fel petai'n cadarnhau'r cyswllt rhyngddi a theulu Ynysforgan.[36] Bid a fo am hynny, y mae'r ffaith bod Hopcyn ap Tomas yn berchen ar gopi o'r *Lusidarius* yn awgrymu ei fod ef, o ran ei syniadaeth ddiwinyddol, yn debyg i'r rhan fwyaf o'i gymheiriaid yng Nghymru ac yn wir ar draws gwledydd Cred yn yr un cyfnod, ac yn creu delwedd ohono'n gynheiliad traddodiad o ysgrifennu crefyddol poblogaidd trwy gyfrwng y Gymraeg.

*Y Greal* yw'r ail destun i'w restru gan Dafydd y Coed. Digwydd y gair *Greal* ym Morgannwg yn y bymthegfed ganrif yn deitl ar lyfr gwasanaeth eglwysig yn cynnwys anthemau i'w canu yn yr Offeren,[37] ac er y gellid yn hawdd ddychmygu perchennog copi o'r *Lusidarius* yn berchen hefyd ar lyfr gwasanaeth o'r fath, y mae'n fwy tebygol mai arall yw ystyr *Greal* yn y fan hon, oherwydd pwysleisio amrywiaeth y testunau ym meddiant ei noddwr, a chan hynny ehangder ei ddysg, yw prif ddiben rhestr Dafydd y Coed. O'r bedwaredd ganrif ar ddeg ymlaen ceir enghreifftiau o'r gair *Greal* yn cyfeirio at y ddysgl a ddefnyddiodd Crist yn y Swper Olaf, ac a ddefnyddiwyd wedyn gan Joseff o Arimathea, yn ôl traddodiad, i gasglu dafnau o waed Crist yn ystod y Croeshoeliad, a'i chludo ganddo wedyn i Brydain. Erbyn y drydedd ganrif ar ddeg, daethai'r Greal Sanctaidd yn ffocws cylch o straeon rhyddiaith Ffrangeg hynod boblogaidd a adroddai anturiaethau marchogion Arthur yn chwilio amdano; ac mewn ffordd nid annhebyg i'r hyn a ddigwyddodd yn ein hoes ni yn achos Dan Brown a'r *Da Vinci Code* (2003) – nofel sy'n tynnu ar yr un traddodiadau sylfaenol â'r rhamantau canoloesol hyn – crewyd ffasiwn lenyddol a ysgubodd mewn cyfieithiad trwy lawer o Orllewin Ewrop yn ystod y drydedd ganrif ar ddeg a'r bedwaredd ar ddeg. Troswyd dwy o'r straeon hynny i'r Gymraeg a'u hadnabod fel *Ystoryaeu Seint Greal*,[38] a ffaith drawiadol yng nghyd-destun y drafodaeth bresennol yw bod copi o'r straeon

---

35 Darnau crwydr o Lyfr Coch Talgarth yw'r rhannau hynny o lsgrau. LlGC Peniarth 12 a Chaerdydd 3.242 (Havod 16) yn llaw Hywel Fychan; gw. Daniel Huws, 'Table of Welsh Vernacular Manuscripts', 60.

36 Brynley F. Roberts, 'Un o Lawysgrifau Hopcyn ap Tomas o Ynys Dawy', 224. Nid yw'r achau'n dangos bod gan Hopcyn frawd o'r enw Rhys, ond yr oedd ganddo fab o'r enw hwnnw, ac nid yw'n amhosibl mai enw teuluaidd oedd hwn; gw. P. C. Bartrum, *Welsh Genealogies A.D. 300-1400*, vii (Cardiff, 1974), 595.

37 John Morgan Williams, 'The Works of Some Fifteenth Century Glamorgan Bards', Traethawd MA anghyhoeddedig Prifysgol Cymru [Caerdydd], 1923, xlvi, 286-7.

38 Gw. Thomas Jones (gol.), *Ystoryaeu Seint Greal* (Caerdydd, 1992); Ceridwen Lloyd-Morgan, 'A Study of "Y Seint Greal" in relation to "La Queste del Saint Graal" and "Perlesvaus" ', Traethawd DPhil anghyhoeddedig Prifysgol Rhydychen, 1978.

hynny wedi goroesi yn llaw Hywel Fychan, yn llsgr. LlGC Peniarth 11; ac y mae lle i dybio, fel yr awgrymodd Daniel Huws, mai dyna'r copi a welodd Dafydd y Coed yn Ynysforgan tua diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg.[39]

LlGC Peniarth 11 yw'r hynaf a'r fwyaf cyflawn o'r llawysgrifau sy'n cynnwys chwedlau'r *Greal* yn Gymraeg: gan hynny, oherwydd nad oes cyfeiriad hŷn at y *Greal* nag eiddo Dafydd y Coed, ac o gofio disgrifiad Meurig ab Iorwerth o Hopcyn fel 'Coeth awdur mesur, moesau Ffrengig' (ll.57), awgrymwyd y gall mai Hopcyn ap Tomas ei hun a gomisiynodd gyfieithu'r straeon hyn i'r Gymraeg.[40] Y mae deall bod gan Hopcyn gopi o *Ystoryaeu Seint Greal* yn ei lys yn Ynysforgan yn ei osod, o ran ei chwaeth lenyddol, ar ganol ffasiwn ddiweddaraf ffuglen Ewrop ar y pryd; byddai medru mynd cam ymhellach a chredu mai 'ar arch a gorchymyn' Hopcyn y troswyd y straeon hynny i'r Gymraeg yn y lle cyntaf yn creu delwedd ohono'n ŵr blaengar o ran dwyn y ffasiwn honno i Gymru.

Y drydedd eitem yng nghatalog Dafydd y Coed o gynnwys llyfrgell Ynysforgan yw'r *Yniales* – teitl arall sy'n peri peth trafferth. Fel y nodwyd eisoes, tadogodd Iolo Morganwg awduraeth yr *Yniales* ar Hopcyn ei hun, gan awgrymu ei bod yn gyfrol a gynhwysai amrywiaeth o destunau gwahanol. Mewn gwirionedd, fodd bynnag, y mae'r gair yn debygol o fod yn amrywiad ar y ffurf *aniales*, Cymreigiad o'r Lladin *annāles* sy'n golygu 'cronicl neu waith hanesyddol, mewn rhyddiaith neu ar gân'.[41] Bu gan y Cymry erioed ddiddordeb yn eu hanes fel cenedl, a chadwyd yr hanesyddiaeth draddodiadol honno ar lafar gan y beirdd, ar ffurf achau a thrioedd a thardd-chwedlau gan mwyaf. Ond yn gyfochrog â hynny datblygodd yn yr eglwysi a'r mynachlogydd draddodiad hanes ysgrifenedig ar ffurf croniclau a blwyddgofnodion, a'r Lladin yn gyfrwng iddynt.[42] Goroesodd sawl gwaith Cymreig o'r math hwn, megis *Cronica de Wallia* a'r tri thestun a gyhoeddwyd dan y teitl *Annales Cambriae*,[43] a dichon mai cyfeirio at waith Lladin cyffelyb a wna'r gair *Yniales* yng ngherdd Dafydd y Coed. Y testun pwysicaf o'i fath yw'r un a adwaenwn fel *Brut y Tywysogion* – cyfeithiad Cymraeg o waith

---

39 Thomas Jones (gol.), *Ystoryaeu Seint Greal*, xiv.

40 Ibid., xx-xxi.

41 *Geiriadur Prifysgol Cymru*, 130; Huw Thomas (gol.), *Geiriadur Lladin-Cymraeg* (Caerdydd, 1979), 63.

42 Ar y maes yn gyffredinol, gw. Brynley F. Roberts, 'Testunau Hanes Cymraeg Canol', yn Geraint Bowen (gol.), *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Oesau Canol* (Llandysul, 1974), 274-302.

43 Thomas Jones (gol.), *Cronica de Wallia and other Documents from Exeter Cathedral Library MS 3514* (Cardiff, 1946); John Williams (ab Ithel), *Annales Cambriae* (London, 1860); Kathleen Hughes, 'The Welsh Latin Chronicles: *Annales Cambriae* and Related Texts', *Proceedings of the British Academy*, 59 (1973), 233-58.

Lladin coll, *Cronica Principum Wallie*.[44] Nodi digwyddiadau o bwys yn hanes y genedl mewn arddull uniongyrchol ar ffurf blwyddgofnodion yw dull sylfaenol *Brut y Tywysogion*, ond y mae'r awdur – a oedd yn amlwg yn Gymro gwladgarol – hefyd yn dehongli'r hanes hwnnw, gan ymateb iddo o bryd i'w gilydd mewn ffordd sy'n rhoi mesur o liw a drama i sawl adran o'i waith. Er nad oedd bod yn hyddysg mewn hanes yn un o'r pedair camp ar hugain y disgwylid i uchelwyr canoloesol eu meistroli, gellir dadlau mai eu llysoedd hwy oedd *milieu* traddodiadol hanesyddiaeth lafar y beirdd, a chadwyd sawl awgrym bod gan amryw ohonynt destunau hanes ysgrifenedig at eu defnydd hefyd: er enghraifft, disgrifiodd Lewys Glyn Cothi ei hun yn 'darllein . . . / achau'r ynys a'i chronig' gyda'i noddwr Wiliam Siôn o Lanegwad.[45] Os yn gywir y dehonglwyd y gair *Yniales* yn awdl Dafydd y Coed, ymddengys fod Hopcyn ap Tomas yntau i'w gyfrif ymhlith yr uchelwyr diwylliedig hynny a chanddynt gopi o lyfr hanes yn eu llyfrgell; a byddai cael ar ddeall mai copi o *Brut y Tywysogion* oedd y testun hwnnw yn cyd-fynd yn berffaith â'r hyn y gellir ei gasglu am y Cymro twymgalon hwn o gyfeiriadau eraill.

Ond os copi o'r *Brut* oedd *Yniales* Dafydd y Coed, rhaid gofyn pam y defnyddiodd enw dieithr ar destun a oedd eisoes yn adnabyddus erbyn ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg fel *Brut y Tywysogion*? Dichon bod mwy na gofynion y gynghanedd y tu ôl i ddewisair y bardd. Dengys cofnod cyntaf *Brut y Tywysogion* fod ei awdur yn synio am ei waith fel parhad o lyfr hanes arall – un tra gwahanol ei ddull, ei ddiben a chwmpas ei ddylanwad – sef *Historia Regum Britanniae* Sieffre o Fynwy, llyfr sy'n olrhain 'hanes' y genedl o'i dechreuadau (honedig) ym mherson Brutus, un o'r arwyr a ddihangodd o Gaerdroea yn ystod y rhyfela â gwŷr gwlad Groeg. Cafodd gwaith Sieffre gylchrediad eang iawn; yn wir, nid gormod fyddai honni mai dyna lyfr hanes mwyaf dylanwadol Gorllewin Ewrop trwy gydol yr Oesoedd Canol. Bu'r testun yn dra phoblogaidd yng Nghymru, yn bennaf y mae'n debyg am ei fod yn cyflwyno darlun lliwgar ogoneddus o orffennol y genedl, ac fe'i cyfieithwyd i'r Gymraeg droeon o ddechrau'r drydedd ganrif ar ddeg ymlaen a'i adnabod fel *Brut y Brenhinedd*.[46] Rhagflaenir rhai copïau ohono gan gyfieithiad o destun Lladin arall, *De Excidio Troiae Historia*, a adwaenir yn Gymraeg fel *Ystoria Dared*.[47] Testun yw hwn sy'n adrodd hanes rhyfel

---

44 Gw. Thomas Jones (gol.), *Brut y Tywysogyon . . . (Peniarth MS. 20)* (Caerdydd, 1941 ac 1952); idem, *Brut y Tywysogyon . . . (Red Book of Hergest version)* (Cardiff, 1955).

45 Dafydd Johnston (gol.), *Gwaith Lewys Glyn Cothi* (Caerdydd, 1995), cerdd 58.30-2. Y mae rhai testunau o gywydd Llywelyn Goch ap Meurig Hen i Hywel a Meurig Llwyd o Nannau yn cynnwys cwpled lle sonia'r bardd amdano'i hun yng nghwmni ei noddwyr yn 'Darllain cyfraith, rugliaith raid / A Brut hen y Brytaniaid', ond dilynwyd darlleniad mwyafrif y llawysgrifau yn y testun beirniadol o'r gerdd, a rhoi 'Sifil, i'm cyfneseifiaid' yn ail linell y cwpled; gw. idem, *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen*, cerdd 8.45-6, a cf. ll.46n.

46 Brynley F. Roberts (gol.), *Brut y Brenhinedd* (Dublin, 1971).

47 Gw. B. G. Owens, 'Y Fersiynau Cymraeg o "Dares Phrygius" (Ystorya Dared)', Traethawd MA anghyhoeddedig Prifysgol Cymru [Aberystwyth], 1951.

Caerdroea hyd at y pwynt lle y mae Sieffre'n cydio yn yr hanes, ac y mae'n ffurfio rhagymadrodd twt – os ychydig yn ddi-fflach – i'w waith yntau. Mewn rhai llawysgrifau, digwydd dau neu fwy o'r testunau hyn, *Ystoria Dared*, *Brut y Brenhinedd* a *Brut y Tywysogion*, y naill ar ôl y llall gan ffurfio hanes olynol, a thybed oni allai'r gair *Yniales* ddynodi testun cyfansawdd o'r fath?[48] Fel y gwelwyd eisoes, prif gynnwys llsgr. Philadelphia, Public Library Company 8680 yw copi o *Ystoria Dared* ynghyd â *Brut y Brenhinedd*,[49] a dywed yr ysgrifydd, Hywel Fychan, iddo lunio'r llyfr hwnnw 'o arch a gorchymun . . . Hopkyn uab thomas uab einawn'. Os cywir y ddadl uchod, ymddengys yn bur debygol mai'r llawysgrif hon oedd *Yniales* Dafydd y Coed, a byddai deall bod testun hanes cyfansawdd o'r fath yn Ynysforgan yn gwbl gymesur â diwylliant eangfrydig Hopcyn mewn meysydd eraill (fel y gwelwyd ac y gwelir), yn awgrym ei fod yn ŵr dysgedig o ran ei ymwybod â hanesyddiaeth Gymreig, ac yn gadarnhad ei fod yn Gymro twymgalon.

Prin y gall fod unrhyw amheuaeth ynghylch yr eitem olaf yn rhestr Dafydd y Coed, 'A grym pob cyfraith a'i gras': rhaid mai testun o'r gyfraith frodorol a olygir. Erbyn y bedwaredd ganrif ar ddeg, yr oedd gwybodaeth am Gyfraith Hywel yn gymaint rhan o gynhysgaeth yr uchelwr diwylliedig â'r brutiau, dyweder, neu'r Hengerdd: bu 'Darllain cyfraith, rugliaith raid, / Sifil, i'm cyfneseifiaid'[50] yn wedd ar fywyd llys Hywel a Meurig Llwyd o Nannau, rhai eraill a fu'n noddwyr i Lywelyn Goch; yn ddiweddarach, mewn cerdd i Elisau ap Gruffudd ab Einion, meddai Gutun Owain fod gwybodaeth o'r gyfraith wrth 'wreiddyn pob cyfrwyddyd',[51] a goroesodd amryw o gyfeiriadau eraill i'r un perwyl yng ngwaith y beirdd. Nid annisgwyl felly yw cael ar ddeall fod Hopcyn yn berchen ar gopi o lyfr cyfraith. Ond dichon bod awgrym o rywbeth pellach yma hefyd, sef y bu iddo ymwneud â'r gyfraith ar lefel ymarferol. Yr oedd Cyfraith Hywel yn gyfraith fyw o hyd yn oes Hopcyn.[52] Yn ne Cymru, yn ôl tystiolaeth y llyfrau cyfraith, gweinyddid y gyfraith honno yn llysoedd y cwmwd gan 'frawdwyr o fraint tir', cyfreithwyr amatur a dynnwyd o blith gwŷr rhydd y cwmwd sef, y mae'n debyg, y rhai hynny y syniwn amdanynt fel yr uchelwyr. Y rhain a fyddai'n gyfrifol am wrando ar achosion, dod i farn

48 Digwydd y tri thestun hyn yn olynol yn llsgr. LlGC Peniarth 19, er enghraifft, yn ogystal â llsgr. Rhydychen, Coleg Iesu 111 (Llyfr Coch Hergest).

49 Nid oes unrhyw dystiolaeth dros gredu i'r llawysgrif hon gynnwys copi o *Brut y Tywysogion* hefyd yn wreiddiol.

50 Dafydd Johnston (gol.), *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen*, cerdd 8.45-6; gw. hefyd n.45 uchod.

51 E. Bachellery (gol.), *L'Oeuvre Poétique de Gutun Owain* (Paris, 1950), 231.

52 Er i'r defnydd ar Gyfraith Hywel gael ei amodi dan Ystatud Cymru, 1284, parhaodd rhai agweddau ar y gyfraith frodorol mewn grym, mewn rhai ardaloedd o'r wlad, hyd ail chwarter yr unfed ganrif ar bymtheg a Deddfau Uno Harri VIII. Am grynodeb o'r sefyllfa, gw. Christine James, 'Parhad, Pragmatiaeth, Propaganda: Llawysgrifau Cyfraith Hywel yn yr Oesoedd Canol Diweddar', yn *Cof Cenedl XXII*, gol. Geraint H. Jenkins (Llandysul, 2007), 37-42.

a rhoi'r dedfryd, a gosodid pwys mawr ar rôl testunau ysgrifenedig o'r gyfraith yn y broses honno.[53] Ymhellach, cadwyd yng nghofnodion ariannol Tywysogaeth De Cymru (sef siroedd Caerfyrddin ac Aberteifi) o tua 1375 ymlaen gyfeiriadau at haen arall o wŷr cyfraith a elwid yn ddosbarthwyr, sef arbenigwyr yn y gyfraith frodorol a gyflogid gan y Goron i gywiro camddyfarniadau a wnaed o dro i dro gan y barnwyr amatur,[54] ac unwaith eto y mae'r llyfrau cyfraith yn gosod pwys mawr ar rôl testunau ysgrifenedig yng ngweithgarwch y gwŷr hyn. Cadwyd enwau dros ddeg ar hugain o ddosbarthwyr yn nogfennau'r cyfnod – amryw ohonynt yn wŷr blaenllaw mewn cyd-destunau diwylliannol ehangach[55] – ac er na ddigwydd enw Hopcyn yn eu plith, ceir sawl awgrym yn yr awdlau fod ganddo arbenigedd y tu hwnt i'r cyffredin yn y gyfraith.[56] Mewn un man, disgrifir Hopcyn ei hun yn drosiadol fel 'da lyfr y gyfraith' (Dafydd y Coed, ll.127) a chyfeirir ato sawl gwaith fel 'ynad' (Madog Dwygraig, ll.12; Dafydd y Coed, llau.53, 65, 128), gair annisgwyl mewn perthynas â gweinyddu Cyfraith Hywel yn y De,[57] ond dichon ei fod yn dynodi ymwneud Hopcyn â'r gyfraith ar lefel ymarferol – ac uchel, o bosibl - rhagor rhyw ddiddordeb diwylliannol cyffredinol. Os gweithredai Hopcyn ap Tomas fel gŵr cyfraith, byddai ganddo reswm da iawn dros fod yn berchen ar lyfr cyfraith, gan y dirwyid yn hallt y brawdwyr o fraint tir a'r dosbarthwyr fel ei gilydd pe gellid dangos iddynt farnu'n groes i'r gyfraith ysgrifenedig; ac y mae'r rheswm hwnnw ar ben unrhyw ddiddordeb cyffredinol a lleyg a allai fod gan Hopcyn yn yr agwedd hon ar ddiwylliant ei wlad.

Fel yn achos y testunau eraill a enwir yn awdl Dafydd y Coed, goroesodd hefyd lyfr cyfraith yn llaw Hywel Fychan, sef llsgr. Rhydychen, Coleg Iesu

---

[53] Gw., er enghraifft, Stephen J. Williams a J. Enoch Powell (gol.), *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd* (Caerdydd, 1942), 17-18, 101-2.

[54] Gw. Ralph A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: I. South Wales 1277-1536* (Cardiff, 1972), *passim*.

[55] Enghraifft amlwg yw Rhydderch ab Ieuan Llwyd o Ystrad Aeron, uchelwr a noddwr y mae ei enw'n annatod glwm bellach â Llyfr Gwyn Rhydderch, a chyswllt hefyd rhwng ei deulu a Llawysgrif Hendregadredd – dau gasgliad y byddai ein gwybodaeth am lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol yn anhraethol dlotach hebddynt. Gwyddys i Rydderch gyflawni amryw o swyddi gweinyddol yng Ngheredigion yn y 1380au a'r 1390au; gw. Ralph A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages*, 619; Llinos Beverley Smith, ' "Cannwyll Disbwyll a Dosbarth": Gwŷr Cyfraith Ceredigion yn yr Oesoedd Canol Diweddar', *Ceredigion*, 10:3 (1986), 229-53; Daniel Huws, 'Llyfr Gwyn Rhydderch', *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 21 (1991), 1-37; idem, 'Llawysgrif Hendregadredd', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 22 (1981-2), 1-26.

[56] Cysylltir gweithgarwch y dosbarthwyr yn arbennig â Thywysogaeth De Cymru; safai Ynysforgan yn arglwyddiaeth gyffiniol Gŵyr.

[57] Ynad yw'r term a ddefnyddir yn gyson yn y llyfrau cyfraith i ddynodi'r barnwr proffesiynol a oedd yn ganolog i drefn gweinyddu'r gyfraith yn y Gogledd.

57.[58] Er nad oes unrhyw reswm uniongyrchol dros gysylltu'r llawysgrif honno ag Ynysforgan, fel yr oedd yn achos llsgr. Philadelphia, Public Library Company 8680 a LIGC Llanstephan 27, y mae'n bur sicr iddi gael ei llunio ar gyfer uchelwr o bwys a ymddiddorai yn y gyfraith nid yn unig am resymau ymarferol ond hefyd am rai hynafiaethol gyffredinol: atodir i'r testun cyfraith sylfaenol gynffon hir o ddeunyddiau o wahanol fathau, yn gyfreithiol ymarferol ac yn chwedlonol hanesyddol, ac fel y nododd Daniel Huws, y mae'r llyfr yn dwyn ôl defnyddwyr canoloesol a ymddiddorai o ddifrif yn y cynnwys.[59] O gymryd yr holl dystiolaeth ynghyd, anodd peidio â mentro gosod llsgr. Rhydychen, Coleg Iesu 57 hithau yng nghasgliad Ynysforgan, yn llyfr a ddefnyddid gan Hopcyn 'wrth ddyfarnu neu gynghori ar broblemau cyfreithiol ymarferol', ond yn un hefyd a gymerai ei le 'gyda'r chwedlau a'r testunau crefydd a hanes yn elfen yn niwylliant amlochrog ei pherchen'.[60]

Ond i gael gwir olwg ar ddiwylliant amlochrog Hopcyn ap Tomas, ac i ddechrau iawn ddirnad cyfoeth mawr ei lyfrgell, rhaid troi oddi wrth restr Dafydd y Coed o destunau unigol a'r llawysgrifau y mentrwyd eu huniaethu â hwy, at lyfr arall sy'n rhannol yn llaw Hywel Fychan; un a ddisgrifiwyd gan yr Athro Ceri Lewis, a hynny'n gwbl haeddiannol, fel 'the richest single manuscript compilation of medieval Welsh literature'.[61] Yr Athro G. J. Williams oedd y cyntaf i awgrymu'r posibilrwydd bod Llyfr Coch Hergest (llsgr. Rhydychen, Coleg Iesu 111) yn un o lawysgrifau Ynysforgan, er iddo gael ei gysylltu â Chwrt Hergest yn swydd Henffordd oddi ar ganol yr unfed ganrif ar bymtheg.[62] Gwnaeth hynny ar sail tair ystyriaeth. Digon amgylchiadol oedd dwy o'r rheini, sef yn gyntaf, bod y rhan fwyaf o'r llawysgrif wedi ei chopïo ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg, yn ystod oes Hopcyn, ac yn ail, y duedd a ddatblygodd yn ystod y ganrif honno i uchelwyr gomisiynu llyfrau cyfansawdd o'r fath.[63] Y brif ystyriaeth a nododd G. J.

---

58 Melville Richards (gol.), *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llawysgrif Coleg yr Iesu LVII*, argraffiad diwygiedig (Caerdydd, 1990).

59 Ibid., xi.

60 Ibid., xxiii.

61 Ceri W. Lewis, 'The Literary Tradition of Morgannwg down to the Middle of the Sixteenth Century', *Glamorgan County History*, iii (Cardiff, 1971), 488.

62 G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol* Morgannwg, 13-14, 147; dichon fod Iolo Morganwg wedi dod i'r un casgliad sylfaenol dros ganrif ynghynt, fodd bynnag, ibid., 14. Ar Lyfr Coch Hergest, gw. Daniel Huws, 'Llyfr Coch Hergest', yn Iestyn Daniel, Marged Haycock, Dafydd Johnston a Jenny Rowland (gol.), *Cyfoeth y Testun: Ysgrifau ar Lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 2003), 1-30. Ar hanes chwalu casgliad Ynysforgan a chrwydriadau tebygol y Llyfr Coch, gw. Prys Morgan, 'Glamorgan and the Red Book'.

63 Yn enghraifft o'r duedd honno, nododd G. J. Williams Rydderch ab Ieuan Llwyd y copïwyd Llyfr Gwyn Rhydderch ar ei gyfer; gw. *Traddodiad Llenyddol Morgannwg*, 147 a n.55. Enghraifft amlwg arall fyddai cymydog i Rydderch, sef Gruffudd ap Llywelyn ap Phylip o'r Cantref Mawr, yr ysgrifennwyd Llyfr Ancr Llanddewibrefi ar ei gyfer yn 1346; gw. Idris Foster, 'The Book of the Anchorite'.

Williams fodd bynnag yw'r cyswllt penodol rhwng teulu Ynysforgan a chynnwys y Llyfr Coch. Cyfeiriwyd droeon yn y drafodaeth bresennol at y pum awdl fawl i Hopcyn: ar ddalennau'r Llyfr Coch y cadwyd y copïau cynharaf o'r rheini.[64] Y mae'r Llyfr Coch yn cynnwys hefyd awdl fawl i'w fab, Tomas ap Hopcyn, sef unig gerdd hysbys bardd a enwir yno fel Y Proll,[65] ynghyd â rhestr anghonfensiynol, led ddychanol, o '[d]ri chaspeth Gwilim Hir saer Hopkyn ap Thomas'.[66] Eto i gyd, ni lwyddodd G. J. Williams i'w ddarbwyllo ei hun yn llawn mai un o lyfrau Ynysforgan oedd y Llyfr Coch, oherwydd dywed wrth grynhoi ei drafodaeth ar y mater fod 'hyn oll yn drwyadl ansicr, er cydnabod mai uchelwr llengar fel Hopcyn ap Tomas a fyddai'n eiddgar i sicrhau casgliad mawr [o'r fath]'.[67]

Ond y mae'r hyn a fu'n 'drwyadl ansicr' i G. J. Williams bellach wedi ei dderbyn yn gyffredinol gan ysgolheigion yn y maes, diolch yn bennaf i waith Brynley Roberts, Gifford Charles-Edwards a Daniel Huws.[68] Cyfeiriwyd eisoes at y nodyn yn llsgr. Philadelphia, Public Library Company 8680, sy'n profi bod cyswllt uniongyrchol rhwng Hywel Fychan, un o brif ysgrifwyr y Llyfr Coch, a Hopcyn ap Tomas. Dadleuodd Daniel Huws fod y modd yr ychwanegwyd y cerddi i Hopcyn, gan dair llaw wahanol, mewn haenen ddiweddar yng ngwneuthuriad y Llyfr Coch (yn hytrach na'u copïo i'w ddalennau'n rhan o floc o gerddi eraill, dyweder), 'yn rheswm atodol dros gysylltu gwneuthuriad y llyfr â Hopcyn', a phwysleisiodd ymhellach nad rhyw atodiad neu ôl-feddwl mo'r cyswllt â theulu Ynysforgan, oherwydd corfforwyd triawd casbethau Gwilym Hir y Saer mewn haenen gynharach o lawer yng ngwneuthuriad y llyfr, yn llaw Hywel Fychan ei hun.[69]

Y mae llaw Hywel Fychan i'w gweld mewn cynifer ag wyth lawysgrif Gymraeg ganoloesol, fel y nodwyd eisoes, ond o'r rhain nid oes dwywaith nad y Llyfr Coch oedd ei *magnum opus*. Ynddo fe'i gwelwn yn cydweithio â dau brif ysgrifydd arall i gynhyrchu'r llawysgrif ganoloesol bwysicaf a oroesodd

---

[64] Lleolir y cerddi hynny yn y Llyfr Coch fel a ganlyn: Llywelyn Goch, col.1307-8; Madog Dwygraig, col.1310-11; Meurig ab Iorwerth, col.1373-4; Dafydd y Coed, col.1375-7; Ieuan Llwyd ab y Gargam, col.1415-16.

[65] Col.1311; gw. R. Iestyn Daniel (gol.), *Gwaith Dafydd y Coed a Beirdd Eraill o Lyfr Coch Hergest*, 145-6. Fel y nododd ei golygydd, y mae'r gerdd hon yn awgrymu bod Tomas yn rhannu diddordeb ei dad mewn barddoniaeth, gan gynnwys y canu brud, a hefyd y gyfraith; ibid., 142.

[66] Col.600.

[67] G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg*, 147.

[68] Brynley F. Roberts, 'Un o Lawysgrifau Hopcyn ap Tomas o Ynys Dawy'; Gifford Charles-Edwards, 'The Scribes of the Red Book of Hergest'; Daniel Huws, 'Llyfr Coch Hergest'.

[69] Daniel Huws, 'Llyfr Coch Hergest', 23.

inni,[70] llyfr y mae'n rhaid ei gyfrif ymhlith ein prif drysorau cenedlaethol. Y mae'n llawysgrif uchelgeisiol o fawr – dros dri chant a thrigain o ffolios wedi eu rhannu'n 1442 o golofnau o lawysgrifen, a'r unig lawysgrif Gymraeg i oroesi o'r cyfnod hyd ddechrau'r bymthegfed ganrif sy'n fwy na 250 mm o uchder.[71] Ac os yw'r llyfr yn gorfforol fawr, y mae'r weledigaeth y tu ôl i'r gwaith yn un gwbl fawreddog. Nid amhriodol fyddai defnyddio'r gair 'llyfrgell' i ddisgrifio'r llawysgrif hon ynddi ei hun, a hithau'n cynnwys ar ei dalennau enghreifftiau o bron pob math o lenyddiaeth y cyfnod, gan gynnwys testunau hanes, 'doethineb' a phroffwydoliaeth, gwyddoniaeth a meddygaeth, gramadeg barddol, casgliad o waith y Gogynfeirdd ynghyd â pheth o'r Hengerdd ddiweddar, a chwedlau'r Mabinogion yn gyflawn.[72] Yn wir, bron na fyddai'n haws rhestru'r *genres* hynny nas cynhwyswyd ynddo: y bylchau amlwg yw gwaith y Cynfeirdd, testunau crefyddol a'r gyfraith frodorol[73] – ac fel y gwelwyd eisoes, cyflenwir dau o'r 'diffygion' hyn yng nghynnwys y Llyfr Coch, a hynny yn llaw Hywel Fychan ei hun, mewn llawysgrifau eraill y gellir o bosibl eu cysylltu ag Ynysforgan. Ond prin bod y gair 'diffygion' yn gorwedd yn esmwyth mewn unrhyw frawddeg sy'n sôn am gynnwys y Llyfr Coch, gan ei fod yn gwneud anghyfiawnder â'r uchelgais ysblennydd sy'n gorwedd y tu ôl i'r gwaith. Dyma ymgais anghymharol i gynnwys rhwng dau glawr hufen diwylliant llenyddol Cymru'r dydd; y mae'n gompendiwm unigryw o destunau Cymraeg Canol, a llyfr y byddai ein canfyddiad o amryw agweddau ar lenyddiaeth yr Oesoedd Canol yn bur wahanol hebddo, er ei bod yn deg nodi bod y rhan fwyaf o'r testunau a gadwyd ar ei ddalennau i'w cael hefyd ar wasgar mewn llawysgrifau cynharach. A chystal nodi yn y fan hon y geill nad mater o gadwraeth yn unig sy'n rhoi'r argraff i ni, mewn oes arall,

---

70 Ar y llawiau gwahanol a'u cyfraniad i'r llawysgrif, gw. Gifford Charles-Edwards, 'The Scribes of the Red Book of Hergest'. Amodwyd peth ar y dadansoddiad hwnnw yn Daniel Huws, 'Llyfr Coch Hergest', lle y rhoddir yr enwau A–E ar y llawiau; y maent oll yn anhysbys ac eithrio Hywel Fychan. Y tair prif law yw A, B (Hywel Fychan) ac C. Copïodd Llaw A y rhan fwyaf o ddechrau'r llyfr hyd gol.76; gwaith Llaw B yw col.376-1358; a Llaw C a gopïodd gol.1358 hyd y diwedd, ac eithrio col.1362-74 sydd eto'n waith Llaw B. Mân ychwanegiadau ar ganol gwaith B ac C yw cyfraniad y llawiau eraill yn bennaf. Cadwyd yr awdlau i Hopcyn gan Llywelyn Goch, Madog Dwygraig a Meurig ab Iorwerth yn Llaw B, awdl Dafydd y Coed ac Ieuan Llwyd ab y Gargam yn Llaw C, ac awdl y Proll yn Llaw D.

71 Daniel Huws, 'Welsh Vernacular Books, 1250-1400', yn *Welsh Medieval Manuscripts*, 42. Maint y ddalen yw tua 345 x 200 mm.

72 Cf. Morfydd E. Owen, 'The Prose of the Cywydd Period', yn *A Guide to Welsh Literature*, ii, gol. A. O. H. Jarman a Gwilym Rees Hughes (Swansea, 1979), 341-2.

73 Nid oes unrhyw reswm dros gredu bod testunau wedi eu colli o'r llyfr oddi ar ei lunio; gw. Daniel Huws, 'Llyfr Coch Hergest', 2-11. Dichon bod absenoldeb y Cynfeirdd o'r Llyfr Coch (ac o'r llawysgrifau eraill y gellir eu cysylltu ag Ynysforgan) yn adlewyrchu prinder copïau ysgrifenedig o'r canu hwnnw i'w defnyddio'n gynsail gan yr ysgrifwyr.

fod y Llyfr Coch yn llawysgrif dra arbennig, gan y ceir sawl awgrym ar ei ddalennau ei hun ei fod yn eithriadol adeg ei lunio. Er enghraifft, dichon y ceir cadarnhad ynghylch maint anghyffredin y prosiect gan yr elfen o ansicrwydd ac arbrofi sy'n nodweddu gwaith Llaw A, yr ysgrifydd anhysbys (amlwg brofiadol) sy'n agor y Llyfr Coch, wrth iddo ddechrau ar ei orchwyl, ac a grisielir ym maint afreolaidd y plyg cyntaf, ynghyd â'r nifer afreolaidd o linellau o ysgrifen i bob colofn yn y plyg hwnnw.[74] Wedyn lle y mae Llaw B (Hywel Fychan) yn batrwm o gysonder mewn llawysgrifau eraill o'i waith fel LlGC Peniarth 11 a LlGC Llanstephan 27, yn y Llyfr Coch 'y mae fel petai cyffro anferthwch y daith ansiartiedig o'i flaen yn mynd yn drech na'i ddisgyblaeth arferol', a'i law ddestlus yn dirywio weithiau hyd ddiofalwch wrth gopïo ambell adran faith.[75] O gymryd yr holl dystiolaeth ynghyd, anodd credu nad oedd y Llyfr Coch yn waith eithriadol yn ôl safonau'r dydd, ac o'r herwydd gellid mentro awgrymu â pheth hyder mai hwn a fuasai bennaf drysor llyfrgell Ynysforgan.

Ni wyddys bellach a oedd y llyfrgell honno'n helaethach na'r llyfrau a gynhwysai'r testunau a restrwyd gan Dafydd y Coed ynghyd â'r Llyfr Coch; dichon mai dyna'r craidd. Tynnwyd sylw eisoes at y llawysgrifau hynny y gellid eu priodoli'n gyfan neu ynteu'n rhannol i Hywel Fychan, gan awgrymu ar sail cyfeiriadaeth yr awdl yn bennaf nad afresymol fyddai eu cysylltu bob un â llys Hopcyn.[76] Ond rhag bod y drafodaeth yn mynd yn rhy gyfleus o dwt, rhaid nodi bod y ddau brif ysgrifydd a gydweithiodd â Hywel ar y Llyfr Coch hwythau, yn eu tro, yn agor y drws ar amryw o lawysgrifau a thestunau eraill y gellir, o bosibl, eu cysylltu ag Ynysforgan – er rhaid pwysleisio na chadwyd unrhyw dystiolaeth annibynnol dros wneud hynny.[77] Eto, y mae'n ogleisiol bod rhai o'r testunau a restrir gan Dafydd y Coed wedi eu cadw hefyd ym mhrif lawiau eraill y Llyfr Coch. Er enghraifft, y mae Llaw C, a gopïodd y rhan fwyaf o draean olaf y llyfr hwnnw, gan gynnwys awdl Dafydd y Coed a'i

---

[74] Gosododd Llaw A ddeg dalen yn y plyg cyntaf, cyn penderfynu ar norm o ddeuddeg o'r ail blyg ymlaen, a rhoi rhwng 53 a 55 llinell o ysgrifen i bob colofn yn y plyg cyntaf, cyn sefydlu safon o 46 llinell erbyn yr ail. Nid yw Hywel Fychan mor gyson ei arferion â Llaw A: y mae ganddo ddwy enghraifft o blyg 14 dalen, ac un o wyth (i gynnwys testun ychwanegol penodol), ac er iddo ddilyn safon Llaw A a rhoi 46 llinell i'r golofn wrth iddo ddechrau ar ei waith ym mhlyg 8, buan y'i gwelir yn amrywio ryw gymaint oddi ar y patrwm hwnnw; gw. Daniel Huws, 'Llyfr Coch Hergest', 11-12.

[75] Ibid., 13; gw. hefyd Gifford Charles-Edwards, 'The Scribes of the Red Book of Hergest', 251, sydd yn cynnig awgrymiadau ynghylch personoliaeth Hywel ar sail nodweddion amrywiol ei law.

[76] Yr unig eithriad yw'r darn byr a gyflenwodd Hywel Fychan i ofod gwag a adawyd ar waelod col.467 a brig 468 yn llsgr. LlGC Peniarth 4, sef Llyfr Gwyn Rhydderch – llawysgrif a gysylltir yn benodol â noddwr arall; gw. Daniel Huws, 'Llyfr Gwyn Rhydderch', 254-5.

[77] Cadwyd enghreifftiau hysbys o ysgrifwyr yn copïo testunau ar gyfer mwy nag un noddwr: er enghraifft, y mae llaw Ancr Llanddewibrefi i'w gweld yn Llyfr Gwyn Rhydderch (Rhydderch ab Ieuan Llwyd) yn ogystal â Llyfr yr Ancr (Gruffudd ap Llywelyn ap Phylip); gw. n.63 a cf. n.76.

chyfeiriadaeth lyfryddol, i'w gweld hefyd yn llsgr. LlGC Peniarth 32, un o'r testunau harddaf o Gyfraith Hywel sydd gennym (nid am ddim y tadogodd William Maurice yn yr ail ganrif ar bymtheg y teitl 'Y Llyfr Teg' arno): a ddichon mai at y copi hwn y cyfeiriodd Dafydd y Coed yn y llinell 'A grym pob cyfraith a'i gras', tybed? Y mae Llaw A, sy'n agor y Llyfr Coch, hithau i'w gweld mewn nifer o lawysgrifau eraill: LlGC Peniarth 190 (sy'n cynnwys ymhlith amryw o destunau eraill gopi o'r *Elucidarium*) a LlGC Peniarth 19 (sy'n cynnwys y dilyniant o destunau hanes, *Ystoria Dared, Brut y Brenhinedd* a *Brut y Tywysogion*), yn ogystal â rhan o lsgr. LlGC Peniarth 32 (lle y copïodd gronicl Lladin byr sy'n dyddio'r llawysgrif i'r flwyddyn 1404, ff.114v). A ddylid uniaethu *Lusidarius* ac *Yniales* Dafydd y Coed â'r llawysgrifau hyn, yn hytrach na'r rhai o waith Hywel Fychan a drafodwyd yn gynharach yn y ddarlith hon? Un ddadl amlwg yn erbyn hynny yn achos yr *Yniales* – os yn gywir y dehonglwyd y gair – yw nodyn Hywel yn llsgr. Philadelphia, Public Library Company 8680, lle y dywed yn benodol iddo lunio'r llawysgrif honno ar gyfer 'y vaester nyt amgen Hopkyn uab thomas uab einawn'. Ond a yw'n bosibl y byddai noddwr cyfoethog fel Hopcyn yn berchen ar fwy nag un copi o rai testunau, er enghraifft?

Gwelir Llaw A hefyd yn llsgr. LlGC Llanstephan 4 lle y copïodd gyfieithiad Cymraeg o'r testun Ffrangeg *Bestiaire d' Amour*, ac awgrymodd ei olygydd, Grahame Thomas, y gall fod y testun hwnnw eto wedi ei gopïo 'ar arch a gorchymyn' Hopcyn os nad yn wir wedi ei gyfieithu ar ei gyfer.[78] Ac o drafod cyfieithiadau, rhaid tynnu sylw hefyd at y coloffon ar ddiwedd testun *Ffordd y Brawd Odrig* yn llsgr. LlGC Llanstephan 2:

> Ac uelly y teruyna *Siwrnei y Brawt Odoric* yn India; yr hwnn a drossawd Syre Davyd Bychein o Vorgannwc, o arch a damunet Rys ap Thomas vab Einyawn, y veystyr ef.[79]

Y mae'r tebygrwydd trawiadol rhwng geiriad y coloffon hwn a nodyn Hywel Fychan yn llsgr. Philadelphia, Public Library Company 8680, cyd-drawiad yr enw Rhys ap Thomas ab Einion (sy'n digwydd hefyd, fel y gwelwyd, ar ganol gweddi yn llsgr. LlGC Llanstephan 27 yn llaw Hywel Fychan; awgrymwyd mai brawd i Hopcyn oedd hwn), ynghyd â nodweddion tafodieithol yn y gwaith sy'n awgrymu mai gŵr o Gwm Tawe oedd Dafydd Fychan, oll yn arwain at y posibilrwydd bod *Ffordd y Brawd Odrig* yn un arall o'r testunau hynny a luniwyd ar gyfer teulu diwylliedig Ynysforgan – casgliad nad oedd G. J. Williams yn fodlon ei dynnu, fodd bynnag, gan fynnu ei fod yn 'rhy fentrus'.[80]

---

78 Graham C. Thomas, *A Welsh Bestiary of Love* (Dublin, 1988), xviii.

79 Stephen J. Williams (gol.), *Ffordd y Brawd Odrig* (Caerdydd, 1929), 57.

80 G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg*, 149. Ni wyddai G. J. Williams am lsgr. Philadelphia, Public Library Company 8680 a nodyn Hywel Fychan sydd wedi caniatáu i ysgolheigion diweddarach glymu ynghyd edafedd gwahanol y ddadl.

Hyd yn oed pe na allem osod yn gwbl hyderus yn Ynysforgan fwy na'r gweithiau a restrir gan Dafydd y Coed ynghyd â'r Llyfr Coch, byddai'n rhaid cydnabod bod llyfrgell Hopcyn ap Tomas yn un dra chyfoethog. Ond y mae'r rhwydwaith o destunau a llawysgrifau ac ysgrifwyr gwahanol a amlinellwyd yng nghwrs y ddarlith hon yn awgrymu'n gryf fod Hopcyn ap Tomas yn rhan o fwrlwm o weithgarwch copïo a chasglu a chyfieithu y medrai fanteisio arno – o bosibl trwy Hywel Fychan ei hun – er cael gafael ar amrywiaeth mawr o weithiau a gymerai eu lle'n anrhydeddus yn ei lys. O gyfuno'r wybodaeth am lawysgrifau ac ysgrifwyr â'r darlun o Hopcyn ap Tomas a gyflwynir yn yr awdlau mawl iddo, rhaid cydnabod na chadwyd yn unman arall yn ein llenyddiaeth ganoloesol ddelwedd o uchelwr mor ddwfn ei ddysg nac mor amlweddog ei ddiwylliant â'r gŵr hwn o Gwm Tawe. Y mae'n wir fod gennym wybodaeth am ddiddordebau diwylliannol amryw o uchelwyr eraill;[81] er enghraifft, dengys cywydd Lewys Glyn Cothi i Gwilym ap Siôn o Lanegwad (un o ddwy gerdd a ysgrifennodd y bardd ei hun ar ddalennau gwag yn y Llyfr Coch ar ôl i'r llyfr adael Ynysforgan) fod gan y noddwr hwnnw ddiddordebau diwylliannol eang, nid annhebyg i rai Hopcyn:

> A'm swydd, gyda'm arglwydd mên,
> oedd ddeall iddo awen;
> darllein art arall yn well,
> darllein ystorïau wellwell
> Siensis, drwy'r sïens a drig,
> achau'r ynys a'i chronig,
> a'r hen gerdd, er hyn o gof,
> a rhieingerdd o'r hengof.[82]

Y mae'n wir hefyd y medrwn gysylltu ambell lawysgrif ganoloesol â noddwr penodol: soniwyd eisoes am y rhai a fu'n berchen ar Lyfr Gwyn Rhydderch a Llyfr Ancr Llanddewibrefi, er enghraifft. Ac y mae'n wir hefyd fod gan uchelwyr eraill eu casgliadau llyfrau: er enghraifft, pan ddienyddiwyd Llywelyn Bren yn 1317, yr oedd ganddo wyth o lyfrau yn ei feddiant, a thri o'r rheini'n rhai Cymraeg.[83] Eto, y mae'r dystiolaeth am Hopcyn ap Tomas yn drawiadol yn y modd y mae cynifer o ddarnau'r jig-so fel petaent yn dod ynghyd mewn ffordd mor (ymddangosiadol) daclus. Hyd yn oed ar ôl caniatáu ar gyfer y cywair eithafol a gormodieithol sy'n nodweddu barddoniaeth fawl y cyfnod, y mae datganiad Ieuan Llwyd mai 'Llëyg yw pawb . . . / . . . wrth Hopgyn' (llau.33-4) yn rhoi'r argraff ei fod yn ddyn go arbennig ei ddiwylliant, ac ategir y sôn am y 'Llwyr wybodau llên a llyfrau' (ll.35) a oedd

---

[81] Gw. n.29.

[82] Dafydd Johnston (gol.), *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, cerdd 58.27-34.

[83] Yr unig un a enwir yw *Le Roman de la Rose*; gw. J. H. Matthews (gol.), *Cardiff Records* (Cardiff, 1898-1911), iv, 58.

ganddo, ynghyd â'r enwi ar destunau penodol yn awdl Dafydd y Coed, gan yr amrywiaeth eang o destunau a llawysgrifau y dadleuwyd yma fod achos dros eu cysylltu â'i lys. Ac os oedd Hopcyn yn wir yn 'naf nawcan punt' (Dafydd y Coed, ll.21), yn ddyn a chanddo incwm sylweddol iawn, byddai ganddo'r moddion i ddiwallu'n llawn ei awydd am lyfrau a'r cyfoeth diwylliannol a gorfforwyd ar eu dalennau.

Dichon y gellir priodoli llawer o arbenigrwydd Hopcyn ap Tomas fel noddwr llên a pherchennog llyfrau i'w ddiddordeb diffuant ei hun yn hanes a diwylliant ei wlad, gallu personol uwch na'r cyffredin o bosibl (os derbynnir tystiolaeth y cerddi), a'r ffaith syml fod ganddo'r moddion nid yn unig i ddilyn ei ddiddordebau ond hefyd i'w hyrwyddo'n weithredol. Ond cadwyd awgrym o ystyriaeth ychwanegol. Dyfynnwyd eisoes o goloffon Hywel Fychan ar ddiwedd ei gopi o *Brut y Brenhinedd* yn llsgr. Philadelphia, Public Library Company 8680:

> y llyuyr hwnn a yscriuennwys howel vychan uab howel goch o uuellt yn llwyr onys gwnaeth agkof adaw geir neu lythyren. o arch a gochymun y vaester nyt amgen Hopkyn uab thomas uab einawn . . .

Os yw rhan gyntaf y nodyn hwnnw'n allweddol o ran sefydlu'r cyswllt rhwng Hopcyn ap Tomas a Hywel Fychan, a chan hynnny rhwng Hopcyn a'r Llyfr Coch, gellid dadlau bod yr ail ran yr un mor arwyddocaol o ran deall meddylfryd ac efallai hefyd gymhelliad y gwŷr hyn wrth iddynt fynd ati i lunio'r llyfr hwnnw ynghyd â'r testunau eraill y gellir eu cysylltu ag enw Hopcyn:

> . . . yr rei a odolygant y pawb gwediaw duw drostunt or a darlleho y llyuyr hwnn. am uadeueint oc eu pechodeu. a channattau gwir lewenyd didiffyc diorffen. y gyt ar tat ar mab ar yspryt glan amen. Ac oe barn wynt anuolyannussaf or tywyssogyon uchot y llywyassant gwrtheyrn a medrawt. kanys oc eu brat wynt ae twyll ac eu kyghor wynt y distrywyt y tywyssogyon arbennickaf. yr hynn a gwynawd eu hetivedyon gwedy wynt yr hynny hyt hediw. y rei yssyd yn godef poen ac achenoctit ac alltuded yn eu ganedic dayar.

Fel y gwelir, wedi i'r copïydd ymuniaethu â'i noddwr mewn darn defosiynol sy'n deisyf maddeuant pechodau a gorffwysfa dragwyddol iddynt ill dau, â Hywel Fychan yn ei flaen i nodi eu cyd-ymateb i gynnwys y *Brut*, testun sy'n olrhain y modd y collwyd sofraniaeth Prydain, etifeddiaeth briod y Cymry yn ôl hanesyddiaeth draddodiadol y genedl, trwy frad a thwyll, i fewnfudwyr o'r Cyfandir. Y mae'r anghyfiawnderau a ddioddefwyd yn sgil gweithredoedd annheilwng Gwrtheyrn a Medrod i'w teimlo yn y tir hyd y dwthwn hwnnw, meddir, a'r Cymry 'yn godef poen ac achenoctit ac alltuded

yn eu ganedic dayar'. Fel y nododd Brynley F. Roberts, y mae datgelu ymateb personol fel hyn yn bur anghyffredin yn llawysgrifau'r cyfnod, a'r awgrym clir yw bod amgylchiadau'r presennol yn gwasgu ar Hywel a'i noddwr mewn ffordd arbennig, a hwythau'n teimlo'n anghysurus – fel alltudion, yn wir – yn eu gwlad eu hunain.[84]

Bu'r bedwaredd ganrif ar ddeg ar ei hyd yn gyfnod o densiynau gwleidyddol a milwrol, rhwng Cymru a'r Goron, rhwng yr uchelwyr Cymreig a'r arglwyddi Normanaidd. Trawodd y Pla; daeth anesmwythyd cymdeithasol a chaledi economaidd yn sgil marw cyfran sylweddol o'r boblogaeth. Dyma'r math o amgylchiadau hanesyddol a chymdeithasol a nodir yn aml fel rhai a arweiniodd at Ryfel Glyndŵr, ac y mae'n bosibl mai at y sefyllfa gyffredinol yn y Gymru oedd ohoni yn sgil y ffactorau hyn a'u tebyg y mae Hywel Fychan yn cyfeirio yn niwedd ei nodyn.[85] Fodd bynnag, nid yw'n amhosibl bod digwyddiadau mwy penodol y tu ôl i'w eiriau. Er enghraifft, yn 1400-2 pasiwyd cyfres o ddeddfau penyd llym a fyddai'n sicr wedi peri i'r Cymry deimlo fel estroniaid yn eu gwlad eu hunain, gan y cyfyngid yn sylweddol bellach ar eu hawliau i fyw bywyd cyflawn ac i ymgymryd â rhai gweithgareddau penodol: er enghraifft, yn sgil y deddfau hyn ni châi Cymro gario arfau heb drwydded, nac amddiffyn ei dŷ ei hunan; gwaharddwyd y Cymry rhag ymgynnull ac eithrio mewn achosion o raid, a chyfyngid yn sylweddol ar weithgareddau'r beirdd.[86] Wedyn yn 1405-6, 'ymroddes holl vorgannwc ir sayson', ac 'ymroddes gwyr ac ystratowi a chan mwyaf garedigion yn seissnic'[87] – sefyllfa arall eto a fyddai wedi peri loes calon i Gymro ymwybodol fel Hopcyn, ac yntau erbyn hynny'n hen ŵr y mae'n rhaid.

---

[84] Brynley F. Roberts, 'Un o Lawysgrifau Hopcyn ap Tomas o Ynys Dawy', 227-8. Cf. y modd y mae Hywel Fychan o bryd i'w gilydd yn datgelu ei bersonoliaeth a'i ymateb i'r testun y mae'n ei gopïo yn natur ei lawysgrifen; gw. n.75. Yn ei ymwybod â cholli tir ac etifeddiaeth y mae Hywel Fychan yn taro nodyn tebyg i'r englyn canlynol o waith Ieuan Wyn, a ganwyd dros bum canrif yn ddiweddarach:

*Alltud*
Gofid yw colli gafael—ar ddaear
O ddewis ymadael,
Ond a'n gwlad yn ein gadael
'Does hid na gofid i'w gael.

Gw. *Blodeugerdd Barddas o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif*, gol. Gwynn ap Gwilym ac Alan Llwyd (Cyhoeddiadau Barddas, 1987), 539.

[85] Ar y cefndir i Ryfel Glyndŵr, gw. R. R. Davies, *The Revolt of Owain Glyn Dŵr* (Oxford, 1997), 5-93; idem, *The Age of Conquest: Wales 1063-1415* (Oxford, 1991), 412-43.

[86] Gw. Ivor Bowen (gol.), *The Statutes of Wales* (London, 1908), xliv-xlvi, 31-6.

[87] Llsgr. LlGC Peniarth 135; dyfynnwyd yn J. E. Lloyd, *Owen Glendower*, 129, 152. Yn arglwyddiaeth Gŵyr, fel y cofir, y safai Ynysforgan.

Wrth drafod cefndir a chyd-destun diwylliannol Rhyfel Glyndŵr, y mae'r diweddar Athro Rees Davies (y gwelir ei golli'n fawr mewn cynifer o gylchoedd yn ein bywyd diwylliannol cyfoes, nid lleiaf gweithgareddau Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion) yn darlunio Hopcyn ap Tomas fel dyn ar groesffordd, yn sefyll mewn presennol anghysurus rhwng y gorffennol traddodiadol a gadwyd yn y llyfrau a'r testunau llenyddol a oedd yn ei feddiant ar y naill law, a'r dyfodol a ragwelwyd yn y canu brud yr oedd yn awdurdod cydnabyddedig arno ar y llall.[88] Tybed oni ellid mynd cam ymhellach ac awgrymu bod ymwybod Hopcyn â'r presennol anghysurus hwnnw, cynnyrch ffrithiant ethnig rhwng Cymry a Saeson, nid yn unig yn gorwedd y tu ôl i dywalltiad cenedlaetholgar Hywel Fychan, ond hefyd yn gymhelliad dros lunio'r Llyfr Coch ei hun.

Y mae naws hynafiaethol gref ar Lyfr Coch Hergest; y mae'n llyfr ôl-syllol yn ei hanfod, yn gompendiwm o bethau'r gorffennol y bernid eu bod yn werthfawr, yn ymgais i osod rhwng dau glawr destunau a gynrychiolai gyfnod a diwylliant y gellid fod wedi tybio ar y pryd eu bod mewn perygl o fynd i ddifancoll. Er nad llaw Hywel Fychan sy'n agor y Llyfr Coch, y mae pob lle dros gredu mai 'Hywel, os nad Hopcyn ei hun, oedd yr ysbryd creadigol a phensaer y llyfr', [89] ac mai Hywel a fu'n bennaf gyfrifol am hel llawer iawn o'r deunydd ynghyd. Fodd bynnag y mae disgrifio Hywel fel 'pensaer' yn awgrymu bod i'r gwaith fesur o gynllun na pherthyn iddo mewn gwirionedd; er bod ynddo ryw drefn fras, ni welir yn y Llyfr Coch ddim o'r trefnusrwydd hierarchaidd sy'n nodweddu Llawysgrif Hendregadredd, er enghraifft, na chynllun (llai uchelgeisiol) Llyfr Gwyn Rhydderch, a cheir yr argraff mai yng nghynwysfawredd y deunydd a gyweiniwyd i'w ddalennau y gorweddai uchelgais y gwaith mewn gwirionedd, nid yn y cyflwyniad rhesymegol nac artistig ohono. Yn wir bron na ellid gweld yr un polisi casglu totalitaraidd ar waith yma ag sydd (fe ymddengys) wrth wraidd cynnwys a strwythur eclectig amryw o'r llawysgrifau cyfraith 'cyfansawdd' a hirfaith y byddid yn eu cynnull a'u copïo maes o law yn y bymthegfed ganrif, ac yr oedd Hopcyn ap Tomas ei hun o bosibl yn berchen ar un o'r gynharaf ohonynt.[90] Yr un modd, trwy estyniad, gellid dehongli'r ffaith fod Hopcyn yn berchen ar amryw o'r testunau a'r llyfrau eraill y mentrwyd eu cysylltu ag Ynysforgan yn y ddarlith hon, yn rhan o ymgais – onid ymgyrch – i gadw 'i'r oesoedd a ddêl y glendid a fu'. A hwythau'n 'godef poen ac achenoctit ac alltuded yn eu ganedic dayar', yr oedd pob copi o bob testun yn gyswllt gwerthfawr â'r gorffennol brodorol, yn safiad bychan arall yn erbyn difancoll diwylliannol.

---

[88] R. R. Davies, *The Revolt of Owain Glyn Dŵr*, 55.

[89] Daniel Huws, 'Llyfr Coch Hergest', 21.

[90] Gw. Christine James, 'Tradition and Innovation in Some Later Medieval Welsh Lawbooks', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 50 (1993), 148-56, ynghyd â'r drafodaeth uchod ar berchnogaeth bosibl Hopcyn ap Tomas ar lsgr. Rhydychen, Coleg Iesu 57.

Cymharol hawdd fyddai mynd â'r ddadl hon i'w phen draw a chreu delwedd o Hopcyn ap Tomas yn gynheiliad diwylliant dan warchae, yn amddiffynnydd y traddodiad llenyddol Cymraeg yn y dydd blin: ond prin y byddai'r ddelwedd honno'n dal dŵr mewn gwirionedd, oherwydd gellid yr un mor rhwydd gyflwyno achos dros ystyried Hopcyn yn un o *movers and shakers* ei ddydd, un a geisiai laesu cortynnau'r traddodiad brodorol er caniatáu i wyntoedd newid ei symud i gyfeiriadau cyffrous, gwahanol. Fel y gwelwyd, ymddengys y bu Hopcyn yn wirioneddol flaengar yn ei berchnogaeth ar gyfieithiadau o destunau llenyddol Ffrangeg, er enghraifft – yn wir, fel y gwelwyd eisoes, nid yw'n amhosibl mai ef neu aelodau eraill o deulu Ynysforgan a gomisiynodd drosi ambell un – a thrwy hynny agor y drysau ar ddylanwadau creadigol a ffrwythlon o'r tu allan a fu'n gyfrwng i gyfoethogi llenyddiaeth Gymraeg ac ehangu ei gorwelion yn fawr. Os oedd Hopcyn yn ŵr a chanddo un llygad ar y gorffennol yn ei awydd i ddiogelu hufen diwylliant ei genedl mewn llawysgrifau yn ei lys, yr oedd ei lygad arall, fel y pwysleisiodd Rees Davies, yn edrych tua'r dyfodol a chyfeiriadau newydd.[91] Ac nid amherthasol yn y cyd-destun hwn yw cofio am ddiddordeb Hopcyn yn y canu brud a'r arbenigrwydd a briodolid iddo yn y gwaith o ddehongli'r dyfodol. Nid cynheiliad diwylliant dan warchae mo Hopcyn bid sicr, ond gŵr a ddeallai bwysigrwydd y gorffennol wrth wynebu'r dyfodol; un a sylweddolai (a throsi geiriau Rees Davies) mai ym meddwl a dychymyg a chalon dynion y mae eu bydoedd yn cael eu creu a'u hail-greu.[92]

Y mae cyfeiriadau'r beirdd at gartref Hopcyn yn ei 'galchlys ger Tawy' (Dafydd y Coed, ll.56), y 'llys gaergalch' honno (Ieuan Llwyd, ll.31), yn dwyn i'm meddwl ddarlun o gaer galchog arall – nid ar lannau Tawe, ond ar riw Penglais, yn edrych dros dref Aberystwyth. Ac ni allaf lai na theimlo fod rhyw debygrwydd sylfaenol rhwng yr uchelgais a'r weledigaeth a roddodd fod i Lyfrgell Genedlaethol Cymru a'r hyn a ysgogodd Hopcyn ap Tomas i ddwyn ynghyd gynifer o weithiau llenyddol pwysig i'w lys yn Ynysforgan.

Y mae hanes sefydlu'r Llyfrgell Genedlaethol yn dechrau mewn un ystyr â sefydlu Cymdeithas gyntaf y Cymmrodorion yn Llundain yn y ddeunawfed ganrif.[93] Pan fabwysiadwyd *Constitutions* y gymdeithas yn 1755 – rwy'n arfer y term Saesneg yn hytrach na'r ffurf 'Gosodedigaethau' a fathodd Lewis Morris, gan fod hwnnw'n 'monstrous long word' chwedl ei frawd William[94] – darparai'r cyfansoddiad hwnnw ar gyfer llyfrgell yn yr Ysgol Gymreig yn Clerkenwell Green, a rhoddwyd cyfarwyddyd i'r Llyfrgellydd bwrcasu, ar gost y Gymdeithas

---

91 R. R. Davies, *The Revolt of Owain Glyn Dŵr*, 55.

92 Ibid.

93 Ar yr hanes, gw. R. T. Jenkins a Helen M. Ramage, *A History of the Honourable Society of Cymmrodorion and the Gwyneddigion and Cymreigyddion Societies (1751-1951)* (London, 1951), 45-90.

94 Ibid., 51.

> one Copy (if to be had) of every Book that hath ever been printed in the antient *British* Language; and of every one that shall be printed hereafter: also as many antient *British* Manuscripts as can be procured at a reasonable Price: Likewise such Books in any other Language, treating of the History and Antiquities of *Britain*, as shall be judged useful and necessary towards carrying on the Designs of the Society . . .[95]

Ganrif a hanner yn ddiweddarach, pan gorfforwyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru trwy Siartr Frenhinol ym mis Mawrth 1907, yr un oedd y genhadaeth sylfaenol: ordeiniwyd ei bod

> i gadw a chynnal llawysgrifau, llyfrau, darluniau, a gweithiau o bob math yn Gymraeg neu yn yr ieithoedd Celtaidd, neu a wnelai â'r bobloedd Cymreig a Cheltaidd, yn ogystal â gweithiau llenyddol mewn unrhyw iaith ar unrhyw bwnc a fyddai'n gymorth i sylweddoli amcanion creu sefydliadau addysgol Cymru . . .[96]

Yn y ddau achos, Llyfrgell Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion a'r Llyfrgell Genedlaethol, yr un oedd yr athroniaeth sylfaenol a fu'n waelodol i sefydlu polisi'r casglu: sef bod cenedl yn cael ei diffinio trwy ei diwylliant, ac yn anad dim trwy ei diwylliant ysgrifenedig; ac mai trwy ddiogelu ei gorffennol y gosodid seiliau sicr ar gyfer dyfodol cenedl. Afraid dweud bod yr athroniaeth honno'n un y byddai'r gŵr y sefydlwyd y ddarlith flynyddol hon er ei goffâd yn cydsynio â hi'n llawn: petai ond am ei wasanaeth fel Llywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llywydd y Cymmrodorion a Llywydd Llys yr Eisteddfod Genedlaethol, cyfrifir T. H. Parry-Williams yn un o gynheiliaid pwysicaf diwylliant a sefydliadau cenedlaethol Cymru tua chanol yr ugeinfed ganrif.

Ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg, pan nad oedd gan Gymru sefydliadau cenedlaethol swyddogol, yr oedd yr iaith Gymraeg ynghyd â'r traddodiad llenyddol a oedd ynghlwm wrthi, yn ffactor a unai'r Cymry'n genedl. Yr oedd yn symbol gref o hunaniaeth yn niffyg trefniadaeth wleidyddol neu gyfansoddiadol, ond yn elfen hefyd a oedd o dan fygythiad cynyddol. Yn wyneb y sefyllfa o ansicrwydd ac ansefydlogrwydd a grewyd gan densiynau a gwrthdaro ethnig a fu'n graddol poethi tua diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg nes troi'n wenfflam yn sgil cyhoeddi Owain Glyndŵr yn Dywysog Cymru ym mis Medi 1400, yr oedd gweledigaeth Hopcyn ap Tomas yn un fawr ac arhosol; diffinio, diogelu a datblygu hunaniaeth genedlaethol ei bobl. Aeth ati i greu 'Llyfrgell Genedlaethol' i Gymru ei ddydd ar lannau Tawe; llyfrgell a ddiffiniodd hanfod y genedl ac a'i

---

[95] Dyfynnwyd yn ibid., 236.

[96] [Dienw], *Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Crynodeb Byr o'i Hanes a'i Gweithgareddau* (Aberystwyth, 1967), 6.

gwarchododd, un a ddiogelodd hufen ei gorffennol a'i gobaith am y dyfodol pan oedd y dyfodol hwnnw yn y fantol, fel y bu droeon cyn ac ar ôl hynny. Er ei bod yn bur eironig nad yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru y mae prif drysor 'Llyfrgell Genedlaethol' Ynysforgan, ond yn Rhydychen, lle y bu ynghadw er dechrau'r ddeunawfed ganrif,[97] bu'r Llyfr Coch yn arbennig, ynghyd â rhai o'r llyfrau eraill a fu gan Hopcyn yn Ynysforgan, yn ddylanwad dwfn ar ein dealltwriaeth o'n treftadaeth lenyddol ganoloesol, ac ar y ffordd yr ydym yn dal i ail-greu ein gorffennol at ddefnydd y dyfodol. Rhoddwn y geiriau olaf i Meurig ab Iorwerth a llinellau lled-broffwydol sy'n llwyr deilwng o'u gwrthrych, y 'maister of Brut':

Ei drwydded bendigedig
A'i dra myfyrdod a drig. (llau.19-20)

('Bydd ei gynhaliaeth fendigedig / a'i fawr fyfyrdod yn aros.')

*The Honourable Society's Sir T. H. Parry-Williams Lecture for 2006 was delivered at the National Eisteddfod in Swansea, within a stone's throw of the home of one of the most fascinating characters of medieval Wales, the nobleman Hopcyn ap Tomas of Ynysforgan who flourished in the second half of the fourteenth century. Five odes composed for him by poets who were his contemporaries paint an idealised and generic picture of a Welsh nobleman: well-descended and wise, strong in battle, wealthy and generous to those around him – particularly to the bards themselves.*

*However the poems also give a glimpse of the man himself, his personality and interests. Hopcyn ap Tomas was clearly a man of great culture and a bibliophile, and the evidence of the poems is substantiated by extant manuscripts which, it is argued here, may be associated with Hopcyn and his court. The most important of these is undoubtedly the Red Book of Hergest which, although connected with Hergest Court in Herefordshire since the middle of the sixteenth century, was almost certainly commissioned by Hopcyn. This monumental work contains betweeen its covers the cream of Welsh literature, and – together with the other manuscripts associated with Ynysforgan – appears to be an unparalleled attempt to preserve copies of the most important texts and genres in the Welsh literary tradition. However the manuscripts also include innovative texts, such as translations of fashionable European works, which introduced novel influences into Welsh literary life.*

---

97 Gw. Prys Morgan, 'Glamorgan and the Red Book'.

*At the turn of the fifteenth century, when the Welsh language and its attendant culture were perceived to be under increasing threat as a result of dire economic conditions and ethnic frictions culminating in Owain Glyndŵr's War of Independence, Hopcyn ap Tomas appears to have taken it upon himself to create a 'National Libary' in his court in Ynysforgan in the Swansea Valley, a library which, in defining the nation's past, simultaneously looked towards its future.*